

Ewin o ddur, onn a ddwg: Y Rhest Gwaywffon a'r Beirdd

Ymhlith yr amrywiol wrthrychau a ddyfelir yn y canu gofyn a diolch, un o'r rhai mwyaf di-nod ar yr olwg gyntaf yw'r *arést* y gofynnir amdano ar y cyd â gwaywffon yn un o gywyddau Gutun Owain.¹ Nid oedd *arést*, neu *r(h)est* fel y'i gelwid yn fwy cyffredin, ond yn ategolyn a gysylltid wrth ddwyfronneg neu frestblad, yn fath o wanas ar gyfer atal y waywffon rhag neidio'n ôl wrth daro ergyd. Ac eto, yn ogystal â bod yn wrthrych cerddi gofyn, naill ai ar y cyd â gwaywffon neu'n rhan o arfwisg, ymddengys y rhest gwaywffon droeon yn y canu mawl o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg hyd ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Nod yr erthygl hon yw dadansoddi'r cyfeiriadau at y rhest gwaywffon mewn perthynas â'u gwerth fel tystiolaeth am ei ffurf a'i ddefnydd, cyd-destun ehangach ei ddefnydd ar faes y gad neu mewn twrnamaint, a'i arwyddocâd symbolaidd yn rhan o ystod ehangach o ddelweddaeth farchogaidd. Awgrymir ymhellach fod cyfuniadau megis *gwayw 'n r(h)est* yn arbennig o ddefnyddiol i'r beirdd am eu bod yn cyfeirio'n ddiamwys at offer ymwan ('jousting').²

Credir bod y rhest gwaywffon wedi ei ddatblygu yn chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar ddeg.³ Roedd yn fraich fach o haearn neu ddur a gâi ei rhybedu, ei phinio neu ei bolltio wrth ran uchaf brestblad ar yr ochr dde, ac wrth i'r marchog ddod â'r

¹ *GO*, cerdd XVI.

² Er cyfleustra, defnyddir y gair *ymwan* yn gyfystyr â'r Saesneg 'jousting' yn yr erthygl hon, a *gwaywffon ymwan* am 'couched lance'. Roedd cysylltiad y gair â'r dull brwydro hwn yn gryf yn yr Oesoedd Canol hefyd, fel y tystia ei ddefnydd mewn chwedlau megis y 'Tair Rhamant' ac mewn rhai o'r cerddi a drafodir yn yr erthygl hon; cf. hefyd yr ymadrodd *oed ymwan* sy'n cyfeirio at dwrnamaint Edward III yn Cheapside, Llundain (1331) yn *Brut y Tywysogyon, Peniarth MS. 20*, gol. Thomas Jones (Caerdydd, 1941), t. 237. Fodd bynnag, ymddengys fod *ymwan* yn cyfeirio'n fwy cyffredinol at frwydr neu ornest bersonol yn wreiddiol, ac nid yw'n glir pryd nac i ba raddau y cyfyngwyd ei ystyr; gw. *GPC*, d.g. *ymwanaf*; Jenny Day, "'Ongyr gwŷr gwedi gwyro" a "hëyrn ar naid": dwy agwedd ar frwydro â gwaywffyn yng ngherddi Beirdd y Tywysogion', *Dwned*, 14 (2008), 11–47 (12).

³ Tobias Capwell, *Arms and Armour of the Medieval Joust* (Leeds, 2018), tt. 50–2, yw ffynhonnell yr holl wybodaeth yn y paragraff hwn.

waywffon at ei ysgwydd cysylltai'r rhest â'r *grapper*, sef cylch o bren, lledr neu fetel a amgylchynai fôn y waywffon y tu ôl i fan gafael y milwr. Delid y waywffon yn sownd, ac wrth daro ergyd âi'r pwysau mwyaf i arfwisg a chorff y marchog yn hytrach nag i'w fraich a'i ysgwydd. O ganlyniad, gellid taro ergyd lawer mwy nerthol. Ail fantais y rhest oedd caniatáu i'r marchog ddefnyddio ei gyhyrau craidd i gyfrannu'n sylweddol at y gwaith o gynnal y waywffon, yn hytrach na bod y cyfan yn pwysu ar ei fraich, ac o ganlyniad gellid trin gwaywffyn hirach a thrymach. Gyda gwaywffon fawr wedi ei 'chloi' yn y rhest, roedd yn llawer haws iddi dorri'n ddarnau mân, a byddai'n haws bwrw gelyn o gefn ei geffyl i'r llawr. Cyfeirir at y rhan fwyaf o'r agweddau hyn yn y farddoniaeth sy'n crybwyll y rhest gwaywffon, ond yn naturiol ddigon ceir y darlun manylaf yng nghywydd Gutun Owain sy'n gofyn *gwayw* ac *arést* gan y milwr Lancastraidd Rheinallt ap Gruffudd ap Bleddyn.

Cartref Rheinallt oedd y Tŵr, ger yr Wyddgrug, a gwyddom rywfaint am ei yrfa.⁴ Fe'i cofnodwyd yn 1461 a 1464 yn un o'r milwyr a ddaliai gastell Harlech dros Harri VI yn erbyn Edward IV, ond, a barnu wrth gerddi eraill a ganwyd iddo, roedd yn fwyaf adnabyddus am ei ymgyrch yn erbyn gwŷr Caer yn 1464 neu 1465, ar ôl iddynt ymosod ar ei gartref. Ymddengys iddo farw yn fuan wedyn, yn 1465, ac awgryma un ffynhonnell nad oedd ond saith ar hugain oed.⁵ Cyfunir moliant i Reinallt ac ymhyfrydu yn nhrallod gwŷr Caer mewn cerddi gan Dudur Penllyn, Lewys Glyn Cothi a Hywel Cilan, a'r tri bardd yn darlunio'r noddwr fel ymwanwr o fri.⁶ Cyfeiria Tudur Penllyn at [*g*]uro'r llu yno â llinon – *wewyr*, er enghraifft, ac at y Saeson yn cael eu *dulio* â *gwayw Ffwg*, sef Ffwg (Fulk) Fitzwarine, un o'r marchogion enwog yr hoffai'r beirdd gymharu eu noddwyr â hwy.⁷ Ymhyfyrdodd Lewys

⁴ *GHC*, t. 56; *GTP*, tt. 111–12; H. T. Evans, *Wales and the Wars of the Roses* (Cambridge, 1915; arg. newydd, Stroud, 1995), t. 87; A. D. Carr, *The Gentry of North Wales in the Later Middle Ages* (Cardiff, 2017), tt. 196–7, 244–5.

⁵ *GTP*, t. 112.

⁶ Nid yw awduriaeth y gerdd a briodolir i Lewys Glyn Cothi yn sicr am nad yw wedi ei chynnwys yn llawysgrifau'r bardd ei hunan; gw. *GLGC*, t. 624.

⁷ *GTP*, 12.27, 30; cf. yr Atodiad isod, ll. 10n. Ymhlith y cyfeiriadau niferus eraill at ymladd ac arfau yng ngherdd Tudur Penllyn ceir sawl disgrifiad o dorri

Glyn Cothi yn yr un fuddugoliaeth, megis yn y llinellau *ymhob mangre 'Nghaerlleon / efo a ladd fil â'i onn*, a cheir darlun tebyg gan Hywel Cilan, *Marchog a oedd ddyw Merchyr / Obry â gwayw yn bwrw gwŷr*.⁸

Moliant mwy cyffredinol a geir mewn cywydd arall gan Hywel Cilan i Reinallt ond nid esgeulusir ei ddoniau ymwan: *Onnen fawr wain Einion fu / Ei wayw, gorchest i'w gyrchu!*⁹ Yn yr un modd, mewn ail gerdd iddo gan Lewys Glyn Cothi, canmolir Rheinallt yn un a oedd *a'i wayw yn fraisg yn ei frig* yn y cwpled cyntaf oll, ac ategir y cyswllt ag ymwan drwy ei alw'n *Rolant*, arwr pennaf chwedlau Siarlymaen, yn y cwpled nesaf.¹⁰ Ceir cyfeiriad arall at ei *onwydd* yn rhan olaf y gerdd, ynghyd â moliant i'r *saith ganwayw* a gynrychiolai'r 'saith gant o waywyr' y gallai eu mwstro o'r Tŵr i'w ddilyn.¹¹ Nid oes syndod, felly, mai am waywffon a rhest y gofynnodd Gutun Owain yn ei gerdd iddo. Cynigir golygiad newydd ohoni yn yr Atodiad ar ddiwedd yr erthygl hon.

Fel y beirdd eraill, cyflwyna Gutun ddarlun o Reinallt fel ymwanwr medrus, ond nid oes cyfeiriad ganddo at unrhyw ymgyrch penodol, gan awgrymu bod y cywydd hwn yn dyddio o bosibl o'r cyfnod cyn ei fuddugoliaeth dros wŷr Caer yn 1464/5. Gellir cynnig ymhellach nad yw'n debygol i'r cywydd gael ei gyfansoddi'n llawer cynharach na thua 1456, os nad oedd Rheinallt ond saith ar hugain oed pan fu farw yn 1465.

Dilynir confensiwn y canu gofyn a diolch ar y dechrau trwy ganmol y darpar roddwr, ac megis mewn rhai achosion eraill gwelir y bardd yn addasu'r moliant yn ôl natur y cais, gan ganolbwyntio ar

gwaywffyn: ll. 9 *onwydd* ysgyrion, 12 *gwayw twn*, 13 [*p*]aladr *onwydd dellt*, 37 *darniawg wayw awchus*, 78 *llaw a dyr onwydd*.

⁸ *GLGC*, 215.11–12, a t. 624; *GHC*, VIII.3–4.

⁹ *GHC*, IX.41–2. Einion oedd enw hendaidd Rheinallt, gw. Atodiad, llau. 3n, 16; cf. troednodyn 50 isod (am *wayw Hywel*). Mae union ystyr y llinell braidd yn dywyll am nad yw perthnasedd *gwain* ('cas cleddyf', ayb.) yn amlwg yng nghyswllt gwaywffon; gellid ystyried hefyd yr homonym ac iddo'r ystyr 'lladdfa, cyflafan', neu'r elfen a welir yn *cigwain*; gw. *GPC*, d.g. *gwain*¹, *gwain*², *cigwain*.

¹⁰ *GLGC*, cerdd 214. Cf. y cyfeiriadau at Beredur, Geraint a *Syr Gei o Warwig* yn llau. 17–22.

¹¹ *GLGC*, 214.57, 51–4.

rym yr ergydion y medrai Rheinallt eu taro â'i waywffon.¹² Ceir rhagflas, fel petai, o'r cais a'r dyfalu, ac o ganlyniad mae undod strwythurol arbennig i'r gerdd hon. Cysylltir [g]wisg haearn Rheinallt â'i allu i dorri gwaywffon (llau. 5–6), ac fe'i cymherir â'r ymwanwr enwog *Syr Ffwg* (megis yng ngherdd Tudur Penllyn iddo).¹³ Crybwyllir arfwisg Rheinallt eto yn rhan o'r ganmoliaeth fwy cyffredinol o'i ddoniau milwrol ef a'i gyndeidiau (ll. 18 [c]uras dur), a chyflwyno'r bardd ei hun fel *eirchiad â chennad wych* a [g]wawdydd (llau. 19–20) cyn crybwyll yr *arést* am y tro cyntaf, *Dwyn onn, w'r diwan annwyd, / Mewn arést, ymwan yr wyd* (llau. 21–2, a'r gynghanedd yn profi mai ar sillaf olaf *arést* y mae'r acen).

Datgenir awydd *gŵr arall* i gael *rhyw dlysau â'r rhain* cyn enwi'r gwir eirchiad, Hywel (ab Ieuan ap Gruffudd?), gan nodi ei fod yn berthynas waed i Reinallt ac yn barod i roi cefnogaeth filwrol iddo (*Dy ewythr yw, daw i'th raid*).¹⁴ Paratoir y tir ymhellach, fel petai, drwy grybwyll hoffter Hywel o [ff]arch a *saffwayw mawr* cyn cyflwyno'r cais yn fanwl, *Arést dur i aros dyn / A gwayw Ifor yw'r gofyn* (llau. 30, 31–2). Yn llinell gyntaf y cwpled hwn ceir cyd-drawiad hwylus rhwng yr ystyr a'r gynghanedd, ac ymddengys fod y bardd yn ymwybodol mai prif swyddogaeth yr *arést* oedd atal y waywffon fel y gellid taro gelyn yn ddigon caled i'w wrthsefyll neu ei stopio.

Troir wedyn at ddyfalu'r rhest a'r waywffon, a'r cyntaf yn cael y sylw mwyaf. Cyfeirir at ei ffurf estynedig drwy ei alw'n *iäen* (ll. 33), yn *ewin* (llau. 34, 44) ac yn *asgell* (ll. 41), ac mae'n debygol mai arwyddocâd tebyg sydd i'r cyfeiriad ato fel *tasel*, gan ei gymharu â math o glespyn neu frôtsh ac iddo bîn mawr a wisgid ar yr ysgwydd i ddal mantell (ll. 46n). Gall fod awgrym yma hefyd fod y rhest yn hardd ei olwg, a chofio bod y bardd yn galw'r rhest a'r waywffon yn *dlysau* yn llinell 24. Syth yw pîn brôtsh fel arfer, ac felly hefyd *iäen*, wrth gwrs, ond ymddengys y gall fod y bardd

¹² Trafodir yn Bleddyn O. Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch c.1350–c.1630* (Caerdydd, 1998), t. 97, achosion tebyg o addasu'r moliant mewn perthynas â cheffylau a chŵn hela yn ogystal ag arfau.

¹³ Cf. Atodiad, ll. 37n (*dwbled Beredur*).

¹⁴ Atodiad, llau. 23–8, a gw. y nodiadau esboniadol.

yn meddwl am rest sy'n crymu am fôn y waywffon wrth ei ddisgrifio fel *ewin cam ar wayw'n cau* (ll. 44).¹⁵

Wrth alw'r rhest yn *iäen ymladd wen amlwg* (ll. 33) gall fod y bardd yn meddwl am ei ddisgleirdeb gwynnaidd yn bennaf.¹⁶ Canmolir yr un nodwedd drwy gyfeirio at *[dd]ur glas* y rhest (ll. 48), ac efallai fod awgrym pellach o'i liw gwynnaidd yn y gymhariaeth â *draig wen y daroganau* (ll. 43), ond posiblirwydd arall yw bod y bardd yn awgrymu mai yn Lloegr y daeth Rheinallt o hyd iddo (ll. 43n). Yma ymddengys fod y *ddraig*, sef y creadur y perthynai'r *ewin cam* iddo, yn cynrychioli'r rhest (neu'r rhest ynghyd â'r darn o arfwisg y'i cysylltid ag ef), ond yn y cwpled sy'n dilyn mae'n rhaid mai'r waywffon yw'r *[c]oed ar lun draig wyllt*.

Yn ogystal â disgrifio'r rhest yn *cau* am y waywffon (ll. 44), nodir mai *onn a ddwg* (ll. 34), ac y *cymerai bren mawr* (llau. 35–6).¹⁷ Drwy alw'r rhest yn *glo* (ll. 48) cyfleir y syniad fod y waywffon wedi ei dal yn sownd ynddo, a gall *abl â gwayw* (ll. 40) awgrymu effeithiolrwydd y rhest wrth helpu ei berchennog i drin ei arf trwm yn fedrus. Ceir cyfeiriad cryno at wneuthuriad y rhest drwy grybwyll *[M]elan a'r eirias dân* (llau. 41n, 42), a gall fod awgrym pellach fod ei wneuthuriad yn gain iawn wrth honni ei fod o *waith Eryllt* (ll. 46n).

Gallai'r cwpled *Arést dwbled Beredur, / Ysgwydd oll a wisg o ddu* (llau. 37–8) awgrymu bod y rhest mor fawr a thrawiadol ei olwg nes bod yr ysgwydd gyfan fel pe bai wedi ei gwisgo ynddo, neu efallai fod y bardd yn disgrifio'r rhest ar y cyd â phlât atgyfnerthu a wisgid dros arfwisg ysgafnach megis brigawn.¹⁸ Gall mai arwyddocâd tebyg sydd i *chwarter o arfau Fferyllt* yn y llinell ddilynol, os 'arfwisg' yw ystyr *arfau* yma. Ond gallai fod yn well

¹⁵ Gall rhest gwaywffon fod naill ai'n grwm neu'n syth; am rai crwm, gw. y delweddau yn <<https://collections.royalarmouries.org>>, rhifau II.3, II.262 (cyrchwyd 8 Rhagfyr 2019).

¹⁶ Defnyddir yr un gair yn ll. 50 wrth gyfeirio at *glos hëyrn* Rheinallt, sef ei arfwisg yn ôl pob tebyg; cf. *GG.net*, 98.60 *Ac yn glos o gen gleisiad* (am frigawn). Nodir yn *GPC*, d.g. *clos*², yr ystyron 'trywsus, llodrau' a '?dillad', ac mae'n werth ystyried hefyd *clos*¹ 'Lle wedi ei amgáu ... caeadle'.

¹⁷ Am *wayw maer y Gien*, gw. ll. 36n a cf. *GHC*, IX.33–4 *Milwyr â gwewyr Gien / Yw gwÿr y gwÿr ny Graig-wen* (i'r un noddwr).

¹⁸ Cf. y cyfeiriadau at rest gwaywffon yn y cywyddau gofyn am frigawns a drafodir isod.

deall *chwarter* ac *arfau* yn eu hystyron herodrol, a'r rhest fel pe bai'n arwyddlun neu ddyfais yn un o gornelau uchaf yr 'arfbais' a gynrychiolir gan gorff neu arfwisg corff y milwr.¹⁹ Nid yw natur yr arfwisg ei hun yn glir am nad dyna ffocws y darn dyfalu, ac ni ellir dibynnu ar ymadroddion megis [g]wisg *haearn*, [c]uras *dur*, [g]wisg *wen*, [c]los *hëyrn* a [ph]ais *haearn* (llau. 5, 18, 49, 50, 51) fel tystiolaeth am arfwisg Rheinallt am nad ydynt yn ddigon penodol eu hystyr, yn arbennig mewn barddoniaeth.²⁰ Fodd bynnag, ceir tystiolaeth werthfawr am y math o arfwisg y rhoddid rhest arni, ym mhrofiad y beirdd, mewn tair cerdd ofyn arall.

Nid oes unrhyw amheuaeth nad arfwisg blât yw gwrthrych cywydd gan Dudur Aled i Syr Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn, siambrlen gogledd Cymru (m. 1505/6), i ofyn am *arfau gwynion*, y cyfeirir atynt hefyd fel *tŷ am ŵr*, *plâd i'w gau 'n gwmplid i gyd* a *gwaith cimwch*, ymhlith pethau eraill.²¹ Ni cheir y geiriau *r(h)est* nac *arêst* yn y gerdd hon, ond ymhlith y cyfeiriadau niferus at wahanol rannau o'r arfwisg megis *polrwn*, *garbras* a *gorsied* mae'r cwpled *Trwy 'mraich o bydd trwm yr onn, / Mae gwanas i'm gwayw union*.²² Am fod ystyron *gwanas* yn cynnwys 'peg', 'bechyn (i ddal rhywbeth i fyny)', 'gorffwysfa' ac 'ateg' mae'n bur sicr mai at rest gwaywffon y cyfeiria'r bardd yma, er na ddaethpwyd ar draws achosion eraill o'r gair yn y cyswllt hwn.²³

Ceir gan Guto'r Glyn a Robin Ddu ap Siencyn Bledrydd ddau gywydd gofyn arall sy'n crybwyll rhest gwaywffon, a'r ddwy gerdd yn dyddio o ail hanner y bymthegfed ganrif.²⁴ (Mae'n

¹⁹ Gw. *GPC*, d.g. *chwarter* 'un o'r pedair adran mewn arfbais'; *OED Online*, Oxford University Press, <www.oed.com>, s.v. *quarter*, n, 11b 'A charge occupying one fourth of the shield, placed in chief'.

²⁰ Cyfeirir at frigawn fel *curas*, er enghraifft, yn *GLGC*, 23.63.

²¹ *GTA*, CXVIII.49, 50, 56, 67; ar y noddwr, gw. *GTA*, tt. 663–4; G. Roberts (1970), 'GRIFFITH (TEULU), Penrhyn, Sir Gaernarfon', *Y Bywgraffiadur Cymreig* <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c3-GRIF-PEN-1300>> (cyrchwyd 6 Rhagfyr 2019).

²² *GTA*, CXVIII.71–2, a t. 637. Mae'n debyg mai ergyd *trwy* yma yw bod y rhest wedi'i leoli rhwng corff a braich dde'r noddwr a'r waywffon yn pasio rhyngddynt.

²³ *GPC*, d.g. *gwanas* (nodir 'rest, braced ar ochr dde llurig i ddal paladr gwaywffon' ymhlith ystyron llai cyffredin y gair).

²⁴ *GG.net*, cerdd 98 ('Gofyn brigawn gan Sieffrai Cyffin ap Morus o Groesoswallt ar ran Dafydd Llwyd ap Gruffudd o Abertanad'); Bledwyn O.

ddiddorol mai Dafydd Llwyd ap Gruffudd o Abertanad, cefnder i Reinallt ap Gruffudd, oedd yr eirchiad yn achos cerdd Guto.²⁵) Prif wrthrych y cerddi hyn yw brigawn, sef siaced o frethyn, cynfas neu ledr, wedi ei hatgyfnerthu gan blatiau haearn bychain.²⁶ Oherwydd hyblygrwydd ac ysgafnder y math hwn o arfwisg mae'n rhaid tybied na fyddai'r rhest gwaywffon mor effeithiol ag yr oedd ar arfwisg blât. Gwyddys, fodd bynnag, fod rhest yn cael ei ddefnyddio gyda brigawn weithiau, gan gael ei osod naill ai ar un o blatiau'r brigawn ei hun (ymgorfforai rhai brigawns blatiau arbennig o fawr dros y frest) neu ar frestblad neu blât atgyfnerthu a wisgid drosto.²⁷ Yn y cyswllt hwn mae'n berthnasol nodi bod Guto'r Glyn yn cyfeirio at darddiad o ddau le gwahanol ar gyfer y *frest* a'r rhest, wrth ganmol *Brest dur o Baris dirion / Ac ar y frest rest o Rôn* (llau. 43–4), ac yn wir, honna fod y brigawn ei hun yn dod o drydydd lle, sef Bourgoigne (ll. 36 *Brigawn dur o Byrgwyn draw*).

Yng ngherddi Guto'r Glyn a Thudur Aled ceir y cyfeiriad at y *r(h)est* neu'r *gwanas* wrth ddyfalu'r arfwisg, ond gwahanol yw'r cyd-destun yng nghywydd gofyn Robin Ddu. Ar ôl cyfarch a chanmol y rhoddwr fel un sy'n *bwrw gwŷr* (ll. 15) ac a wnâi *bren gwydn yn frau* (ll. 19), parheir â'r ddelweddaeth ymwan drwy gyflwyno'r cais gyda'r cwpled *Mae arnaf chwant ymornest / Â gwŷr ieirll, â gwayw o rest* (llau. 35–6). Ni ddisgrifir y *r(h)est* yn

Huws gol., *Detholiad o Gywyddau Gofyn a Diolch* (Caernarfon, 1998), cerdd 8 ('I ofyn pâr o arfau gwynion gan Siôn ap Maredudd o Ystumcegid dros Ddafydd ap Siancyn o Garreg-y-gwalch').

²⁵ Bu farw'r ddau yn ifanc yn yr un flwyddyn (1465) a cheir marwnad iddynt gan Ieuan ap Tudur Penllyn (*GTP*, cerdd 50); gw. yn arbennig llau. 7–8 *Cefndyr yn filwyr o faint / Fu'r rhain heb feirw o henaint*, a 67 *Deugar o gyfar ag onn*.

²⁶ Am drafodaeth ar gywydd Guto'r Glyn a chywydd gofyn arall am frigawn gan Lewys Glyn Cothi, gw. Jenny Day, 'The imagery of the brigandine in two fifteenth-century Welsh request poems', *SC*, XLVII (2013), 167–82. Gwelir rhywfaint o debygrwydd i'r cerddi hyn yn nisgrifiad Robin Ddu o blatiau bach a rhybedion y brigawn; gw. yn arbennig Huws gol., *Detholiad*, 8.46 *teils dur oll*, 58 *pysg ir*, 59–60 *Ei theiliwr a wnaeth hoelion / Aur ym mhwys i wrymio hon*. Cymharer hefyd gyfeiriadau Guto'r Glyn at y brigawn fel *pâr* (*GG.net*, 98.34–5; Day, 'Imagery', 168 (n. 12)).

²⁷ Charles Ffoulkes, *The Armourer and his Craft* (London, 1912), tt. 50–1; D. Edge and J. M. Paddock, *Arms and Armour of the Medieval Knight* (London, 1996), tt. 74–7, 118–20, 129.

uniongyrchol yn rhan o'r brigawn a erchir yn y llinellau sy'n dilyn, ond efallai fod hyn yn ddealedig. Mae'r gair *ymornest* yn ddiddorol, am y gall (*g*)*ornest* gyfeirio at ymladd rhwng deuddyn at ddiben penodol (i dorri dadl ac ati), ac ymddengys iddo gael ei ddefnyddio yng Nghronicl Elis Gruffydd i gyfeirio at ymwan mewn twrnaint, wrth ddisgrifio *ornest a thori ffyn wrth y tylid*.²⁸ Mae'n bosibl, fodd bynnag, fod y bardd yn lleisio awydd yr eirchiad i brofi ei sgiliau ymwan wrth 'gystadlu' â'i elynion mewn brwydr.²⁹ Yn sicr, cyd-destun digon rhyfelgar sydd i'r ganmoliaeth o'r rhoddwr, gan gyfeirio ato'n [*c*]yffroi'i alon (ll. 11) ac yn [*d*]ifa caith fel oddf cyll (ll. 22).

Yn yr un modd, anogir Rheinalt ap Gruffudd, yng nghywydd gofyn Gutun Owain, i [*g*]adw'r Twr (ll. 52), defnyddir motiff 'dod yn rhaid' mewn perthynas ag ef ac â'r eirchiad (llau. 27, 53), a chyfeirir at *ymladd* a *rhyfel* wrth ddyfalu'r rhest a'r waywffon (llau. 33, 41, 47).³⁰ At hynny, cysylltir yr arfwisg blât â brwydro o ddifrif yng ngherdd Tudur Aled, wrth awgrymu y byddai'n amddiffyn *rhag Ysgotiaid* (cyfeiriad posibl at ymosodiadau gwŷr Iago IV a Perkin Warbeck ar ogledd Lloegr yn 1496–7), a geilw Guto'r Glyn y brigawn yn [*b*]ais rhag gwayw Sais a'i saeth.³¹

I grynhoi, ceir tystiolaeth o'r cerddi gofyn fod y rhest gwaywffon yn hysbys yn y gymdeithas uchelwrol yn ail hanner y bymthegfed ganrif, yng nghyswllt brigawn yn ogystal ag arfwisg blât, a'r beirdd yn ei gysylltu fwyaf â rhyfel yn hytrach na'r twrnaint. Troir nesaf i ystyried cyfeiriadau eraill at y rhest gwaywffon, yn y canu mawl yn arbennig.

* * *

²⁸ *GPC*, d.g. *ornest, gornest* 'Ymryson, cystadleuaeth ... ymladdfa ag arfau anghueol rhwng dau berson ... twrnaint' (nid oes erthygl ar gyfer *ymornest*); LIGC 3054iiD, 539^r <<http://hdl.handle.net/10107/4393586>>. Gair arall a geir yn aml yng nghyd-destun ymwan yw *gorchest*, ond 'camp' yw ei brif ystyr yn ôl *GPC*, d.g., a 'gornest' yn ystyr lai cyffredin.

²⁹ Awgrymir yn Huws gol., *Detholiad*, t. 120, ei bod yn bosibl fod yr eirchiad ar herw pan ganwyd y gerdd.

³⁰ Ar fotiff 'dod yn rhaid', gw. Huws, *Canu Gofyn a Diolch*, tt. 212–13.

³¹ *GTA*, CXVIII.46n; *GG.net*, 98.40.

Yng ngherdd Gutun Owain yn unig y ceir y gair *arést*, yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru*, ond gweddol gyffredin oedd y gair *rhest* neu *rest* yn y farddoniaeth.³² Nodir dwy ystyr ar ei gyfer yn y *Geiriadur*, sef ‘rhest gwaywffon’ ac ‘arestiad’ (fel arfer yn cyfeirio at bobl yn cael eu dal gan elynion neu gan yr awdurdodau), ac ymddengys y gellir ychwanegu trydedd ystyr, sef rhan o ffrwyn neu harnais ceffyl.³³ O ran yr ystyr ‘rhest gwaywffon’, o leiaf, ymddengys mai’r ffurf *rhest* oedd fwyaf cyffredin, a *rest* yn gymharol ddiweddar.³⁴ Yn ôl y *Geiriadur* tardda *arést* o’r Saesneg *arrest* (< Hen Ffrangeg *ar(r)est(e)*), ac o ffurf affetig ar y gair Saesneg, sef *rest*, y tarddodd *r(h)est*.³⁵ Fodd bynnag, am fod yr enghreifftiau hysbys cynharaf o’r Saesneg *rest* a’r Cymraeg *r(h)est* yn dyddio o tua’r un adeg, sef degawdau olaf y bedwaredd ganrif ar

³² O’r farddoniaeth y daw’r rhan fwyaf o’r dystiolaeth yng nghasgliad slipiau *GPC*, ond ceir un achos yng Nghroniclel Elis Gruffydd (gw. isod), a nodir yr ymadrodd *gwayw o Rest* yng Ngeiriadur Thomas Lloyd, Plas Power (c.1730), f. 201^v.

³³ Ceir yr ymadrodd *Rest ffrwyn* gan John Jones, Gellilyfdy, mewn rhestr o rannau ffrwyn ceffyl yn Pen 304, f. 202^v (1633) (diolchaf i Ann Parry Owen am y cyfeiriad hwn); cf. *ag yni frest kaiff rest ffrwyn*, yn fersiwn Pen 96 o gywydd gofyn ceffyl gan Wilym Tew (gw. y darlleniadau amrywiol a nodir ar gyfer XIV.6 yn Ann E. Jones, ‘Gwilym Tew: astudiaeth destunol a chymharol o’i lawysgrif, Peniarth 51, ynghyd ag ymdriniaeth â’i farddoniaeth (Ph.D. Cymru [Bangor], 1981)); hefyd *ibid.* III.61–2 *Pan fu rhwng deulu (daled – yn y rest)*, / *Ymwan am orchest er mwyn merched* (i ofyn ceffyl); J. C. Morrice gol., *Barddoniaeth Wiliam Llŷn* (Bangor, 1908), LXXVI.63–4 *Ffriw a gyrch ffræ a gorchest / Ffroen yr arth mewn ffrwyn a rest* (i ofyn ceffyl); T. H. Parry-Williams gol., *Canu Rhydd Cynnar* (Caerdydd, 1932), 94.53–4 *ynor kadarn wrth i frest / heb ffrwyn wen rest na gwenfa* (‘Cwrs y Byd’; ar *gwenfa* fel ffurf ar *genfa*, gw. *GPC*, d.g.). Cymharer hefyd *Middle English Dictionary*, ed. R. E. Lewis *et al.* (Michigan, 1952–2001), s.v. *rēst(e)* n.(2) ... (a) ... *bridel of* ~ ‘a bridle for stopping a horse’; *OED Online*, s.v. *rest*, n.², 1b ‘A means of stopping or checking a horse’, 2b ‘A device for halting movement’.

³⁴ Gall mai yn awdl Tudur Aled i Siôn Grey, arglwydd Powys (m. 1494), y ceir yr achos cynharaf o *rest* yn ffurf gysefin (*GTA*, II.39 *A’ch llinon trymion, trumiog, – ar ych rest*), ond mae’n anodd bod yn sicr am fod orgraff y llawysgrifau’n amwys weithiau ac ni ellir dibynnu ar y gynghanedd (gall *rh* ateb *r*).

³⁵ Gw. *GPC*², d.g. *arést*; *GPC*, d.g. *rest*², *rhest*², (b); *Middle English Dictionary*, s.v. *arēst(e)* n., 4(b); *OED Online*, s.v. *arrest*, n.¹, 4 (diweddarwyd 1885), *rest*, n.², 2a (diweddarwyd 2010).

ddeg, mae tarddiad uniongyrchol o'r Saesneg Canol *arest(e)* neu'r Hen Ffrangeg *ar(r)est(e)* yn werth ei ystyried.³⁶

Yn nisgrifiad Iolo Goch o arfogaeth Owain Glyndŵr y ceir yr achos cynharaf o *rhest*, ymysg geiriau benthbyg eraill o Saesneg Canol neu Hen Ffrangeg:³⁷

Pan aeth mewn gwroliaeth gwrdd,
Gorugwr fu garw agwrdd,
Ni wnaeth ond marchogaeth meirch,
Gorau amser, mewn gwrmseirch,
Dwyn paladr, gwaladr gwiwlew,
Soced dur a siaced tew,
Arwain rhest a phenffestin
A helm wen, gŵr hael am win,
Ac yn ei phen, nen iawnraifft,
Adain rudd o edn yr Aifft.³⁸

Gellir dyddio'r cywydd hwn i 1384/5 neu'n fuan wedyn ar sail y cyfeiriad at wasanaeth Owain gyda *Syr Grigor* ym *Merwig* (llau. 43–6); roedd Owain yn aelod o garsiwn Berwig (Berwick-on-Tweed) yn 1384 dan gapteiniaeth Syr Grigor Sais, a'r flwyddyn ddilynol aeth ar ymgyrch gyda Rhisiart II i'r Alban.³⁹ Awgryma'r cyfeiriad at y plu cochion ar helm Owain (*Adain rudd o edn yr Aifft*) mai offer ar gyfer y twrnaint a ddisgrifir yn y darn a

³⁶ Yr enghreifftiau hysbys cynharaf yn yr ystyr berthnasol yw c.1385 ar gyfer S.C. *arest(e)*, 1391 ar gyfer S.C. *rest(e)*, a c.1392–3 ar gyfer H. Ffr. *arrest*; gw. *OED Online*, s.v. *rest*, n.², 2a; *Middle English Dictionary*, s.v. *arĕst(e)* n., 4(b), *rĕst(e)* n.(2); *Dictionnaire du Moyen Français, version 2015 (DMF 2015)*. *ATILF - CNRS & Université de Lorraine. Site internet*: <<http://www.atilf.fr/dmf/>>, s.v. *arrêt*, *arrest*, III.A. Gellid ystyried tarddiad uniongyrchol o'r H. Ffr. yn achos y gair *arĕst* hefyd.

³⁷ Tynnir sylw at hyn yn Gruffydd Aled Williams, 'More than "skimble-skamble stuff": the medieval Welsh poetry associated with Owain Glyndŵr [Sir John Rhŷs Memorial Lecture]', *Proceedings of the British Academy*, 181 (2010/2011, 2012), tt. 1–33 (t. 10).

³⁸ *GIG*, IX.33–42.

³⁹ Awgrymir yn Williams, 'More than "skimble-skamble stuff"', t. 10, fod y gerdd yn dyddio o fis Gorffennaf 1385 yn ôl pob tebyg, sef yr adeg pan oedd Owain Glyndŵr yn cychwyn ar yr ymgyrch i'r Alban. Ar gefndir y gerdd hon, gw. hefyd *GIG*, t. 228; Michael Livingston and John K. Bollard ed., *Owain Glyndŵr: A Casebook* (Liverpool, 2013), tt. 270, 501–7.

ddyfynnwyd, a byddai cyd-destun y twrnamaint yn addas hefyd ar gyfer y disgrifiad ohono'n ennill *Gair mawr am fwrw y gŵr march* (ll. 47). Gwyddys bod twrnameintiau'n rhan o rai ymgyrchoedd yn y cyfnod hwn; yn wir, ceir cofnod am farchogion Seisnig yn gofyn caniatâd y brenin yn 1385 i gynnal 'ymwan rhyfel' ('joust of war', lle defnyddid arfau rhyfel arferol heb eu haddasu er diogelwch) yn erbyn marchogion o'r Alban.⁴⁰ Gellid cymharu hefyd ganmoliaeth Gruffudd Llwyd i Owain *Yn ymwan ar dwrneimant, / Yn briwio cyrff, yn bwrw cant*, mewn cerdd sy'n dyddio o 1386–7 yn ôl pob tebyg.⁴¹

A dychwelyd at gerdd Iolo Goch, eir ymlaen i ddisgrifio brwydr arall a fu'n 'gostus', a lle torrodd Owain ei waywffon (llau. 51–2 *A'r ail grwydr a fu brwydr brid, / A dryll ei wayw o drallid*). Naws fwy rhyfelgar sydd i'r rhan hon o'r gerdd, ac felly hefyd yn y disgrifiad o Owain yn ymwan mewn ail gywydd gan Ruffudd Llwyd, a all gyfeirio at yr un digwyddiad:

Pan oedd drymaf dy lafur
Draw yn ymwriaw â'r mur,
Torres dy onnen gennyd,
Tirion grair taer yn y gryd,
Dewredd Ffwg, dur oedd ei phen,
Dors garw, yn dair ysgyren.⁴²

Ceir yn y cerddi i Owain Glyndŵr, felly, awgrym iddo ymwan nid yn unig mewn twrnamaint ond hefyd mewn brwydr o ryw fath. Ysgarmes neu *chevauchée* yw cyd-destun tebycaf y brwydro hwn, os oes sail i ddisgrifiadau'r beirdd, am nad ymddengys fod Owain wedi cael cyfle i ymladd mewn cad ar faes yn y cyfnod 1384–5.⁴³

⁴⁰ Adam Chapman, *Welsh Soldiers in the Later Middle Ages, 1282–1422* (Woodbridge, 2015), tt. 208–9; Capwell, *Arms and Armour of the Medieval Joust*, tt. 57–63, 73–7.

⁴¹ *GGLI*, 12.77–8; am y dyddiad, gw. Livingston and Bollard ed., *Owain Glyndŵr*, t. 274.

⁴² *GGLI*, 11.53–8; awgryma Williams, 'More than "skimble-skamble stuff"', t. 12, y gallai'r gerdd hon fod wedi ei chanu ym mis Medi 1385 i ddathlu dychweliad Owain o'r Alban; arni, gw. hefyd *GIG*, t. 228; *GGLI*, tt. 250–2; Livingston and Bollard ed., *Owain Glyndŵr*, tt. 501–7.

⁴³ Williams, 'More than "skimble-skamble stuff"', t. 11; Livingston and Bollard ed., *Owain Glyndŵr*, t. 506; hefyd Chapman, *Welsh Soldiers*, t. 209, lle nodir y

Yn gyffredinol, anodd iawn yw dirnad cyd-destun yr ymladd a ganmolir yn y farddoniaeth, un ai brwydr fawr, ysgarmes, gornest bersonol rhwng gelynion, twrnamaint rhyfel neu dwrnamaint heddwch. At hynny, weithiau gall fod yr ymladd a ddisgrifir yn symbolaidd neu ystrydebol, am fod canmol milwriaeth yn rhan mor bwysig o'r canu mawl, a diau fod y sylw mawr a roddir i ymwan mewn chwedlau megis y 'Tair Rhamant' a storiâu Siarlymaen yn ddylanwad pellach ar ddisgrifiadau'r beirdd o frwydro.⁴⁴ Wrth symud ymlaen i ystyried canu mawl y bymthegfed ganrif, fodd bynnag, mae'n drawiadol fod sawl cyfeiriad at rest gwaywffon wrth ganmol gwŷr y gwyddys bod ganddynt gryn brofiad milwrol.

Un o filwyr Cymreig amlycaf y Rhyfel Can Mlynedd oedd Mathau Goch o Faenor, a cheir gan Guto'r Glyn ddisgrifiad ohono'n ymwan ger Rouen:

Pan fu ymgyrchu gorchest
Ym min Rhôn a'i wayw mewn rhest,
La Her a roes law i hwn,
Felly gwnâi betai Botwn.⁴⁵

Mae'n debygol mai cefndir y llinellau hyn yw'r frwydr bwysig ym mis Chwefror 1436 pan drechwyd byddin yr arweinwyr Ffrengig Étienne de Vignoles neu La Hire (*La Her*) a Jean Poton de Xaintrailles (*Potwn*) gan garsiwn Seisnig Rouen, ond gall mai cyd-destun yr ymwan oedd gornest rhwng deuddyn neu dwrnamaint (ymhlith milwyr y garsiwn Seisnig, o bosibl).⁴⁶

Ceir disgrifiad llawer mwy helaeth o rest gwaywffon yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun milwrol penodol mewn cerdd gan Ddafydd Nanmor i Ddafydd ap Tomas ap Dafydd. Darlunnir y noddwr yn ymwanwr medrus, a chysylltir ei allu gyda'i wayw a'i

byddai Owain, fel milwyr eraill ei gyfnod, wedi ymladd ar ei draed mewn cad ar faes.

⁴⁴ Williams, 'More than "skimble-skamble stuff"', t. 13.

⁴⁵ *GG.net*, 3.15–18.

⁴⁶ Barry Lewis, 'Late Medieval Welsh praise poetry and nationality: The military career of Guto'r Glyn revisited', *SC*, XLV (2011), 111–30 (115–16); nodyn cefndir Alaw Mai Edwards yn *GG.net*, cerdd 3; Chapman, *Welsh Soldiers*, t. 209.

rest ag ymosod yr Iorciaid ar ogledd Cymru yn 1468. Cipiasant gastell Harlech ac, yn ôl y bardd, aethant mor bell â Llŷn:

Deng mil o vilioydd oyddyn,
Draw dri llv hyd ar dir Llŷn.
[...]
Dyn nid arhoes dan d'avr huc,
Dy wayw'n dy rest, da [na] drwc.
Dy issarn, bych dywysoc,
Drwy'r gŵr a drawai'r garrec.⁴⁷

Fel yng ngherdd ofyn Gutun Owain i Reinallt ap Gruffudd (y milwr ifanc o'r blaidd arall, a fu farw ychydig cyn yr ymgyrch hwn) ceir y ferf *aros* yng nghyswllt y rhest gwaywffon. Yn y ddau achos, y syniad a gyfleir yw grym mawr ergyd y waywffon, sy'n peri i elyn *aros* neu stopio yn y naill achos ac yn amhosibl ei stopio neu ei wrthsefyll *gan* y gelyn yn y llall. Mynegir syniad tebyg mewn cywydd mawl gan Dudur Aled i Syr Rhisiart Herbert, gan alw arno i ddial marwolaeth ei dad ym mrwydr Banbri (1469):

Dial, â grym dy law graff,
Waith Banbri, a'th wayw bonbraff,
Llath drom yn llwytho dy rest,
Llew adeinfrych, llydanfrest;
Bron cawr, heb wyro'n y cyrf,
Braich elffant, bar uchelffyrf;
Ai llai'r corff no'r Iarll a'r Cawg,
Neu'r llowfron no Iarll Efracw?⁴⁸

Prin y gellid rhoi darlun mwy cwmpasog o gryfder a diysgogrwydd Syr Rhisiart, ac effeithiolrwydd ei *rest*, wrth iddo drin ei waywffon drom *heb wyro'n y cyrf* (sef, gan aros yn gadarn a diwyro yn ei gyfrwy wrth roi neu dderbyn ergydion). Cryfheir y ddelweddaeth gan y cyfeiriadau at faint a phwysau'r waywffon: mae'n *wayw bonbraff*, ac yn *llath drom* sy'n *llwytho'r* rhest. Yn yr un modd, defnyddiodd Gutun Owain yr ansoddair *mawr* ddwywaith wrth gyfeirio at waywffon yn ei gerdd ofyn, ceir *trwm* yng nghyswllt

⁴⁷ *PWDN*, XXII.14–21.

⁴⁸ *GTA*, LXI.57–64.

gwaywffon mewn rhest gan Ddafydd Nanmor a Thudur Aled, a cheir cyfeiriadau tebyg gan nifer o feirdd eraill.⁴⁹

Er eu bod yn adlewyrchu swyddogaeth y rhest gwaywffon, diau mai canmol cryfder a gallu'r noddwr yw prif ddiben cyfeiriadau o'r fath, ac felly hefyd yn achos y cyfeiriadau at rym yr ergydion y gellid eu taro, megis cyfarchiad Gutun Owain i Reinallt ap Gruffudd fel un *A dry durwayw drwy darian* yn ail linell ei gerdd ofyn. Gall fod yn arwyddocaol hefyd fod cyfeiriad Dafydd Nanmor at ddiysgogrwydd gwaywffon y noddwr yn ei rhest yn cael ei ddilyn gan froliant amdano'n taro arf gwahanol, ei *isarn*, drwy gorff ei elyn fel y *[t]rawai'r garreg* ar yr ochr arall iddo (gw. y dyfyniad uchod). Gellid cymharu hefyd gerdd gan Owain ap Llywelyn ab y Moel i Ruffudd ap Hywel o'r Ystog (Churchstoke). Yma, cysylltir *[c]oed o rest* â rhwygo arfwisg (*gwe haearn*) yn ddarnau, yng nghyd-destun amddiffyn (*cadw*) cartref y noddwr:

Dwyn ydd wyd fal dannedd og
goed o rest i gadw'r Ystog.
Gwna ran – wrth gywain yr êl –
gwe haearn â gwayw Hywel.⁵⁰

Mae'n debygol mai ystyr *[c]oed o rest* yw bod y gwaywffyn yn ymestyn allan o'r rhest, fel yr awgrymir hefyd gan y gymhariaeth â dannedd og; gall fod y bardd yn meddwl naill ai am nifer o waywffyn a roddai Gruffudd yn ei rest, y naill ar ôl y llall, neu am

⁴⁹ Atodiad (isod), llau. 30, 36; *PWDN*, VIII.19 (*[g]waew trwm*, gw. isod); *GTA*, II.39 *A'ch llinon trymion, trumiog*, – *ar ych rest* (gall *trumiog* gyfeirio at y rhychau (S. 'flutings') a welir yn rhedeg ar hyd rhai gwaywffyn ymwan; gw. <<https://collections.royalarmouries.org>>, rhif VII.551), *GTA*, CXVIII.71–2 [...] *o bydd trwm yr onn*, / *Mae gwanas i'm gwayw union*. Cf. hefyd *PWDN*, VIII.61–2 *Mwy d'onnen [...] / No ffrenn llong*; *GHD*, 21.11–12 *Maint ar eich rhest*, mewn *torch rhudd*, / *Myn graffwayw, maneg Ruffudd*; *GSCeri*, 38.53–4 *Y ffon a gaiff Ieuan Gwyn*, / *Ac ni chodai gan' chwedyn*; Tegwen Llwyd, 'Noddwyr y Beirdd yn Siroedd Brycheiniog a Maesyfed' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1987), t. 522, *Llywelyn derwyn dewrael*, / *Faichwayw'n rhest Fychan wr hael* (trafodir y cyfeiriadau hyn ymhellach isod).

⁵⁰ *GOLIM*, 6.11–14. Arfwisg fael yw *gwe haearn* yn ôl pob tebyg; cf. *GPC*, d.g. *gwe ... gwe faelys* 'coat of mail'. Gall mai ystyr symbolaidd sydd i'r ymadrodd *gwayw Hywel*, gan awgrymu bod y noddwr wedi 'etifeddu' grym milwrol ei dad. Crybwyllir *cledd awch Hywel* yn yr un gerdd (ll. 6). Cf. hefyd *GHC*, IX.41 *Onnen fawr wain Einion fu* (i Reinallt ap Gruffudd, ac Einion yn hendaidd iddo).

rai a berthynai iddo ef ac i'w ddilynwyr.⁵¹ Estynnir y ddelweddaeth amaethyddol drwy gyfeirio at *gywain* yn y cwpled nesaf. Hynny yw, mae'r noddwr fel pe bai'n paratoi tir wrth ddwyn cyrch â'i wayw, ac yn medi 'cnwd' o elynion clwyfedig.

Gall fod cyfeiriad arall at y rhest gwaywffon yng nghyswllt ergyd dreiddiol mewn cywydd serch gan Ieuan Dyfi: *Rhiain ni chair hun na chof, / Rhoest, Ann, wayw yn rhest ynof*.⁵² Ymddengys fod yma enghraifft o dopos 'arfau serch' sy'n chwarae ar ystyr ddwbl *gwayw* ('poen' a 'gwaywffon').⁵³ Gall mai ystyr *yn rhest ynof* yw bod y *gwayw* yn glynu'n sownd ym mynwes y bardd, megis gwaywffon yn cael ei dal mewn rhest.

Nid trywanu gelyn oedd y canlyniad a ddisgrifir amlaf, fodd bynnag, wrth gyfeirio at ymwan; mwy cyffredin o lawer yw cyfeiriadau at dorri gwaywffyn neu fwrw gelynion oddi ar eu ceffylau, sef dau beth a weddai naill ai i faes y gad neu i faes twrnamaint.⁵⁴ Ceir sawl cyfeiriad at dorri gwaywffyn yng nghywydd gofyn Gutun Owain; gelwir Rheinallt yn [*dd*]ihenydd *gwayw onwydd* a dorrai ei arf nes nad oedd *ond ei ddarn* ar ôl, a cheir amrywiad creadigol ar dopos yr arf toredig yn y cwpled *Os gwydn, gwnai megis gwden, / Os brau, gwnai yn us ei bren* (llau. 4–8). Yr awgrym yma yw y plygai'r waywffon fel gwialen (*gwden*) pe bai'n rhy wydn i dorri.

Crybwyllir torri gwaywffyn a bwrw gelynion sawl gwaith mewn cerdd gan Ddafydd Nanmor i Domas ap Rhys o'r Tywyn. Mae hon yn frith o gyfeiriadau at waywffyn ac ymwan, gan agor drwy gyfarch y noddwr fel y *kenav'n dwyn kannwayw dŵr*, a'i ganmol fel *Peredur* ac fel un a gâi *onllath Dywyn*.⁵⁵ Crybwyllir y *r(h)est* ddwywaith, a cheir y cyfeiriad cyntaf mewn darn sy'n

⁵¹ Am achosion eraill gyda'r arddodiad *o*, ond gyda *gwayw* (unigol), gw. Huws gol., *Detholiad*, 8.36 *gwayw o rest* (Robin Ddu); *GLGC*, 50.1 [*y*] *gwayw o'r rhest*.

⁵² *GHCLIE*, LIX.3–4.

⁵³ Cymharer yn arbennig *DG.net*, 127.9–12 ('Gwayw Serch') *Weled y wenferch wihlwys, / Wi o'r dydd! mau wewyr dwys. / Á seithochr wayw y'm saethawdd / A sythdod, cymhendod cawdd*.

⁵⁴ Datblygwyd ar gyfer y twrnamaint waywffyn arbennig a dorrai'n hawdd i greu effaith ddramatig; gw. Edge and Paddock, *Arms and Armour*, t. 160.

⁵⁵ *PWDN*, VIII.1, 3, 10.

annog Tomas i frwydro â'i waywffon yn Ffrainc a'i defnyddio i amddiffyn Cent:

Od ai Domas, val Siason,
Ab [Rrys], rrwng Paris a Rrôn,
[G]waew trwm a ddwc yt o rann,
Grwnn [em]yl gwŷr yn ymw[an].
Ac wrth roi gwewyr i'th rest,
Ni ffery onn y fforest.
O daw aliwns, a'i deiliaid,
Ar dir Kent, o'r dŵr i kaid,
T[ro od]deav trwy Ddwywent,
Tomas, kyrch tv a maes Kent.
A bwrw [i] gwŷr â bric onn,
Val bwrw avalav byrrionn.⁵⁶

Mae'r cyfeiriadau at ddinistrio *onn y fforest* a bwrw gwŷr *val bwrw avalav* yn drawiadol, a cheir cyfeiriadau pellach at 'far' neu waywffon doredig (*[b]ar vs*) a *bwrw* gelynyon yn nes ymlaen yn y gerdd:

Bv ar dy rest, mewn brwydr oydd,
Brenn vyrr yn bwrw niveroedd.
Ni vv ryw ŵr, â'i var vs,
Yn bwrw Otiel, na Brutus.
Mwy d'onnen, wrth ymdynnv,
No ffrenn llong, yn ffrwyno llv.
Ef âi vaen, os adwaenwnn,
Ym mwn y gwayw val maen gwnn.⁵⁷

Yma gwelir y bardd yn mynd i eithafion unwaith eto drwy honni bod Tomas yn trin arf a oedd yn fwy na *[ph]ren llong* ac yn taro ergyd mor nerthol ag eiddo *maen gwnn!* Dyma grynhoi bron holl fanteision y rhest gwaywffon.

⁵⁶ *PWDN*, VIII.17–28. Ar ddechrau ll. 17 diwygiwyd y darlleniad *O dai* a geir yn *PWDN* (*Odai* sydd yn y llawysgrif, Pen 52, 30). Eiddo testun *PWDN* yw'r bracedi sgŵar.

⁵⁷ *PWDN*, VIII.57–64. Gwaywffon o goed ffyr neu bin yw'r *[p]renn vyrr* yn ll. 58; *GPC*, d.g. *fyrr* (benthyciad o'r S.C. *vyrrre* 'fir').

Cerdd arall sy'n cysylltu rhest â thorri gwaywffon yw cywydd gan Hywel Dafï i Domas ap Siancyn Fychan ap Siancyn, a'r cyfeiriad at *ynys* yn awgrymu bod y bardd yn meddwl am ymwan yng nghyd-destun ennill neu amddiffyn tiriogaeth:

Os am ynys ymwenir
Â gwayw 'n y rhest gan w'r hir,
Bar Wysg ac Aberysgir
A bair yn fân ei bren fyr.⁵⁸

Cysylltir rhest â thorri gwaywffon mewn cyd-destun mwy cyffredinol, ond digon rhyfelgar, mewn cywyddau diweddarach gan Lewys Morgannwg, *Gwayw a dorrud, gyw dewrwyd, / Gwaedlyd rest Gadwaladr wych* (i Gadwaladr ap Robert, Rhiwlas), a Rhys Nanmor, *Gŵr a chae aur uwch ei rest, / Gwayw'n chwilfriw gan uchelfrest* (i Syr Rhys ap Tomas o Abermarlais).⁵⁹

Gellid uniaethu [*cae aur* Syr Rhys ap Tomas â'r goler aur neu'r bathodyn a wisgai aelodau Urdd y Gardas, a'r bardd yn cyfeirio hefyd at *eurdorch* ac at *waeg aur ar ei guras*.⁶⁰ Dyrchafwyd Syr Rhys i Urdd y Gardas yn 1505 (ar ôl cael ei urddo'n farchog wedi brwydr Bosworth, 1485, a'i ddyrchafu'n farchog banred ('knight banneret') wedi brwydr Blackheath, 1497), ac i ddathlu hyn y cynhaliodd ei dwrnamaint mawr yng Nghaeriu yn 1506.⁶¹ Ceir disgrifiad manwl o'r digwyddiad mawreddog hwn, gan gynnwys cyfeiriad at *launces a restes* y cystadleuwyr, ym mywgraffiad Saesneg Syr Rhys (1622 x 1627):

Then the trumpetts sounded; whereupon the two first combatants putt their launces into their restes, and soe rann each their six courses. In like sorte followed the rest, who charged the one, the other with equall ardour, ever and anon deviding manie a shrewd counterbuffe among them, and performing their devoirs with much judgment and agilitie.

⁵⁸ *GHDafï*, 13.13–16.

⁵⁹ *GLMorg*, 81.35–6; Mary Gwendoline Headley, 'Barddoniaeth Llawdden a Rhys Nanmor' (M.A. Cymru [Bangor], 1938), 55.53–4.

⁶⁰ *Ibid.*, 55.2, 44; *Boutell's Heraldry*, revised by J. P. Brooke-Little (London, 1983), tt. 193–4.

⁶¹ Ralph A. Griffiths, *Sir Rhys ap Thomas and his Family* (arg. newydd, Cardiff, 2014), tt. 45, 48, 50.

Noe sooner had they made an end with their speares, but they fall to Turney with their swordes all at once [...] ⁶²

Yn bresennol yn nhwrnamaint Syr Rhys roedd rhyw aelod o deulu Gruffudd ‘Out of North Wales’, y gellir ei uniaethu yn ôl pob tebyg â Wiliam Gruffudd (m. 1531), a benodwyd yn siambrlen Gogledd Cymru yn 1508. ⁶³ Cymerodd Syr Rhys a Syr Wiliam ran yn ymgyrch Harri VIII yn Ffrainc yn 1513, ac urddwyd Wiliam yn farchog yn Nhwrnai yn y flwyddyn honno. ⁶⁴ Cyfeirir at ymladd ym *Mwlen* a Ffrainc mewn cerdd o fawl i Syr Wiliam gan Huw ap Dafydd, ⁶⁵ a chrybwyllir ei *dorch rhudd* ef, yn symbol o statws marchog, ar y cyd â’i rest gwaywffon:

Marchog glân am euro’ch cledd,
Milwr gwyn am lawr Gwynedd.
Mynnwch, y gŵr, miniwch gant,
Maes, Syr Wiliam, ais Rolant.
Maint ar eich rhest, mewn torch rhudd,
Myn graffwayw, maneg Ruffudd. ⁶⁶

Mae’r cyfeiriad at *euro’ch cledd* yn y darn hwn yn berthnasol hefyd, ac mae nifer o’r cerddi eraill sy’n crybwyll rhest gwaywffon yn cynnwys cyfeiriadau tebyg at offer euraid a gysylltid â statws marchog. Yng ngherdd Dafydd Nanmor i Ddafydd ap Tomas, er enghraifft, cyfeirir ato’n gwisgo neu’n haeddu gwisgo *koler evraid*, a’r awgrym yw bod hon yn wobr deilwng gan ei arglwydd, Edward IV. ⁶⁷

⁶² *Ibid.*, tt. 245–58 (t. 255); am y dyddiad, gw. *ibid.*, t. 142.

⁶³ *Ibid.*, tt. 248–9 (n. 52); Roberts, ‘GRIFFITH (TEULU)’. Roedd hwn yn fab i’r Syr Wiliam Gruffudd y gofynnodd Tudur Aled am arfwig blât ganddo yn y gerdd a drafodir uchod.

⁶⁴ *Ibid.*; Griffiths, *Sir Rhys ap Thomas*, tt. 53–6, 82.

⁶⁵ *GHD*, 21.45, 62.

⁶⁶ *GHD*, 21.7–12.

⁶⁷ *PWDN*, XXII.26–7 *Kael o’r warr koler evraid*, / *Karw Edwart mewn kaer ydwyd*, a cf. y cyfeiriad at fantell (*hug*) aur yn llau. 18–19 *Dyn nid arhoes dan d’avr huc*, / *Dy wayw’n dy rest, da [na] drwc*; hefyd *GOLIM*, 6.61–2 *Yr wyneb a’th ariannodd / a ro i ti wisg o aur tawdd* (i Ruffudd ap Hywel o’r Ystog); *GSCeri*, 25.1–2 *Mae aerwy gwyn am war gŵr*; / *Aur fo i’w weled ar filwr* (i Wmffre Cinast; cf. llau. 3–4, 19), *ibid.* 41.63–4 *Aerwy rhuddaur y rhoddych*, / *Aros art aur, Risiart wych* (i Risiart ap Rhys, a [g]art yn ffurf ar gartr).

Mewn cerdd gan Ddeio ab Ieuan Du i Rydderch ap Rhys, cysylltir y rhest a'r waywffon yn fwy penodol â gwasanaeth i Edward IV:

Ac Edwart y sydd ag ergydion – serch
I'th annerch, Rhydderch, drwy arwydd[i]on;
Arwydd[i]on disgwyl, arwyddion – hysbys;
Y gŵr o'r ynys, gorwyr Einion.

A'th osod *a* wnair, a'th weision – i gyd
I *rwystro* ennyd yr *estronion*;
A'th annerch y mae a'th wayw[?n] – rhest,
Gorau un orchest gyrru anerch[i]on.⁶⁸

Cysylltir y rhest gwaywffon, ac ymwan yn gyffredinol, â statws uchel fel arfer, ond ceir eithriad diddorol i'r rheol hon gan Lewys Glyn Cothi, wrth iddo gyfeirio mewn cerdd i Watcyn ap Tomas at ei [*g*]annwr rhif â'u canwayw rhest; hynny yw, cant o filwyr rhestredig a chanddynt gant o waywffyn a ddelid mewn rhest:

cant castell dano bellach,
can tref fawr, can tyrfa iach,
cancaer cyn darffo'r cwncwest,
cannwr rhif â'u canwayw rhest,
cant o feirch, cynta' o fil,
o ganmeirch i ugeinmil.⁶⁹

Ar arwyddocâd cyfeiriadau o'r fath, gw. ymhellach *GMBen*, 16.66n; *GGGr*, 1.11–12n; Jenny Day, “‘Arms of stone upon my grave’: weapons in the poetry of Guto'r Glyn”, yn D. Foster Evans, B. J. Lewis ac A. Parry Owen gol., *Gwalch Cywyddau Gwŷr: Ysgrifau ar Guto'r Glyn a Chymru'r Bymthegefed Ganrif* (Aberystwyth, 2013), tt. 233–81 (tt. 251–2).

⁶⁸ *GDID*, 2.53–60.

⁶⁹ *GLGC*, 127.43–8, a gw. ll. 46n, a *GPC*, d.g. *gŵr ... gŵr rhif*. Ymddengys mai grym ansoddeiriol sydd i *rhest* yma; cf. *GLMorg*, 5.19 *Gwaed Henri â'r gwayw tanrest*, a'r elfen *tân* o bosibl yn awgrymu ffyrnigrwydd yr ergydion neu'r ymladd yn gyffredinol (am amrywiol agweddau ar dopos yr arf tanlyd, gw. Jenny Day, *Llachar fy nghleddau, lluch ydd ardwy—glew*: rhai agweddau ar ddelweddaeth y cleddyf ym marddoniaeth yr Oesoedd Canol', *Dwned*, 23 (2017), 41–77 (50–2)). Cymharer hefyd y cyfansoddair *r(?h)estlafn* yn *GHSD*, 1.15–16 *Rwystli, Cyfeiliog restlafn, / Rhest yn lifiad rhoes dan lafn*, ond er y

Diau mai bwriad y bardd yw canmol grym milwrol y noddwr drwy gyfeirio at ei farchogfilwyr niferus a'u hoffer ymwan. Fodd bynnag, mae'n amlwg mai arfau rhyfel, nid offer ar gyfer twrnamaint, sydd ym meddwl Lewys Glyn Cothi yma.

Yn gyffredinol, gwelir tuedd yn y cerddi mawl a drafodwyd uchod i gysylltu'r rhest gwaywffon â rhyfel, a noddwyr yn cael eu darlunio'n ymwan yn erbyn gelynion o'r iawn ryw, naill ai mewn ymgyrch neu at ddiben penodol arall megis amddiffyn tir neu ddial ar elynion. Yr unig gyfeiriad y gellir ei gysylltu yn weddol hyderus â chyd-destun y twrnamaint yw'r un cynharaf oll, yn nisgrifiad Iolo Goch o offer ymwan gwych Owain Glyndŵr, a hyd yn oed yn y gerdd hon â'r bardd rhagddo i ddisgrifio Owain yn brwydro o ddifrif (efallai mewn ysgarmes neu *chevauchée*, fel y nodwyd uchod). Cymharol gynnar hefyd yw disgrifiad Guto'r Glyn o Fathau Goch yn ymwan ger Rouen, efallai mewn twrnamaint neu ryw fath o ornest rhwng deuddyn.

Dylid nodi bod y ddwy gerdd hyn yn perthyn i gyfnod pan oedd ymwan wedi colli bri fel dull brwydro ar gyfer cad ar faes, oherwydd llwyddiant tactegau newydd a ddibynnai ar allu cwmnïau mawr, trefnus, o saethwyr a throedfilwyr arfog i wrthsefyll rhuthr marchogion â gwaywffyn ymwan.⁷⁰ Ond newidiodd pethau eto yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynnau, efallai o ganlyniad i welliannau mewn arfwisgoedd i geffylau; adenillodd y waywffon ymwan rywfaint o'i bri fel arf rhyfel, a daeth y twrnamaint yn fwy poblogaidd hefyd.⁷¹ Cafodd marchogfilwyr rôl sylweddol ym mrwydr Bosworth (1485), ac yn rhai o frwydrau diweddarach oes y Tuduriaid megis Brwydr yr Ysbardunau (1513).⁷² Nid yw'n afresymol tybio, felly, fod rhywfaint o sail i'r

gallai *llafn* gyfeirio at waywffon weithiau yn y farddoniaeth ni ellir bod yn sicr mai rhest gwaywffon a olygir yma, ac felly hefyd yn yr ail linell (a ymddengys yn '[I]lwgr o ran ei chynghanedd a'i hystyr'; gw. *ibid.* n.).

⁷⁰ A. Ayton, 'English Armies in the Fourteenth Century', yn *Arms, Armies and Fortifications in the Hundred Years War*, ed. Anne Curry and Michael Hughes (Woodbridge, 1994), tt. 21–38 (tt. 34–5).

⁷¹ A. Goodman, *The Wars of the Roses: Military Activity and English Society, 1452–97* (London, 1981), tt. 178–81; A. W. Boardman, *The Medieval Soldier in the Wars of the Roses* (Stroud, 1998), tt. 134–5; Griffiths, *Sir Rhys ap Thomas*, t. 73.

⁷² Christopher Gravett, *Knight: Noble Warrior of England 1200–1600* (Oxford, 2008), tt. 245, 251–2.

darlun a geir gan y beirdd o noddwyr megis Dafydd ap Tomas a Syr Rhys ap Tomas yn ymwan ar faes y gad.

Ar y llaw arall, mae'n rhaid cydnabod y gallai hoffter y beirdd o ganmol eu noddwyr fel rhyfelwyr ffyrnig fod wedi ystumio'r darlun a geir, a'i bod yn bosibl fod noddwyr yn arfer eu sgiliau ymwan yn y twrnamaint gan amlaf, os oeddynt yn ymwan o gwbl. Ymddengys fod cyfeiriadau at dwrnameintiau'n gymharol anghyffredin yn y canu mawl (o leiaf hyd at ddiwedd yr Oesoedd Canol), er bod nifer o enghreifftiau i'w cael o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ymlaen.⁷³ Efallai fod y beirdd yn fwy parod i'w crybwyll mewn *genres* eraill; er enghraifft, roedd twrnamaint dychmygol yn sail i gerdd ymryson (am geffyl) rhwng Hywel Swrdwal a Llawdden, a chyfeiria Gwilym Tew at *Ymwan am orchest er mwyn merched* (yng nghyd-destun amser Urien Rheged) mewn cerdd i ofyn ceffyl.⁷⁴ O ran y dystiolaeth hanesyddol, nodir yn *Brut y Tywysogion* fod *torneymant* wedi ei gynnal yn Nefyn mor gynnar â 1284, a chofnodwyd twrnameintiau diweddarach yn Dunstable (1329) a Cheapside (*Chepp*), Llundain (1331).⁷⁵ At hynny, gall mai mewn twrnamaint neu ymwan 'cyfeillgar' arall o ryw fath y lladdodd Syr Gruffudd Fychan o Gegidfa ei feistr, Syr Christopher

⁷³ Nid oes lle yma i ystyried y dystiolaeth yn llawn, ond ceir cyfeiriadau cynnar yn *DG.net*, 17.38 *Anturiau nawmil mewn twrneimaint* (marwnad (ffug?) i Ifor Hael a Nest), a *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug*, gol. R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 1997), 1.73 *Addurn ail Turn mewn twrneimant* (i Syr Rhys ap Gruffudd (m. 1356)). Nodwyd yn barod gyfeiriad Gruffudd Llwyd at Owain Glyndŵr yn *ymwan ar dwrneimant* (*GGLL*, 12.77), a'r ganmoliaeth i Owain gan Iolo Goch mewn cyd-destun tebyg (*GIG*, IX.33–42); cf. hefyd *GIG*, XX.22–40 (am Syr Rosier Mortimer). Yr unig gyfeiriadau y daethpwyd ar eu traws (yn y farddoniaeth) a all fod yn gynharach na'r bedwaredd ganrif ar ddeg yw'r rhai yn y gerdd ddarogan 'Moch Daw Byd' a geir yn Llyfr Coch Hergest; gw. Manon Bonner Jenkins, 'Aspects of the Welsh Prophetic Verse Tradition in the Middle Ages' (Ph.D. Cambridge, 1990), tt. 149–62, ll. 2 *Moch da6 mynych dorr o'r tórneimant*, 19 *Am taleu tyrua y tórneimant*; gw. ymhellach y drafodaeth am chwaraeon a hyfforddiant milwrol yn J. P. Day, 'Arfau yn yr Hengerdd a cherddi Beirdd y Tywysogion' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 2010) <<http://hdl.handle.net/2160/4646>>, 268–71.

⁷⁴ *GHSD*, cerdd 18; Jones, 'Gwilym Tew', III.62.

⁷⁵ Jones gol., *Brut y Tywysogyon, Peniarth MS. 20*, tt. 229, 235–6, 237 (gelwir twrnamaint 1331 yn *oed ymwan*).

Talbot (un o ymwanwyr enwocaf Lloegr), yng nghastell Cawres, swydd Amwythig, yn 1443.⁷⁶

Cyfeiriwyd yn barod at dwrnamaint Syr Rhys ap Tomas yng Nghaerwys (1506), ac ychydig yn ddiweddarach, yn 1520, cynhaliwyd twrnamaint enwog arall yn rhan o gynhadledd Harri VIII a Ffrances I, brenin Ffrainc, ar ‘Faes y Brethyn Euraid’ ger Calais. Ceir adroddiad am y cyfarfod hwn yng Nghronicle Elis Gruffydd, gan gynnwys disgrifiad o’r ddau frenin yn cyfarfod wrth y *tylt*, sef, naill ai’r maes ymwan neu’r pared isel a wahanai’r ymwanwyr oddi wrth ei gilydd.⁷⁷ Ceir darlun o’r ddau frenin yn gwylio’r arglwyddi a’r marchogion, *a hrai ynn torri i fynn ac eraill ynn ffaelio*, a nodir y problemau a achoswyd gan y gwynt mawr *yn erbynn yr hwn ir ydoedd ynn abraidid ir gwr mwyaf i nerth or teulu osdwng i ffon yn i Resd*.⁷⁸

A dychwelyd at y farddoniaeth, gall mai twrnamaint a ddisgrifir gan Siôn Ceri, yn y darn hwn o’i gywydd mawl i Ieuan Gwyn ap Siâms ap Rhys, Clwn (a oedd yn dal swydd siedwr yn 1546–7):

Dy wayw’n rhest, Ieuan, ir oedd,
Dy ffriw i ennyn dyffrynnoedd.
D’arf âi dros y dyrfa draw,
Dy wayw’n danllyd yn d’unllaw.
Y ffon a gaiff Ieuan Gwyn,
Ac ni chodai gan’ chwedyn,
A rhoi byth *oddi* ar y banc
Wythwayw’n gryf i’th un grafanc.⁷⁹

Mae’r ganmoliaeth i gryfder y noddwr drwy gyfeirio at bwysau ei waywffon, na all chwe chan dyn arferol mo’i chodi, yn dwyn i gof rai o’r cyfeiriadau cynharach a drafodwyd uchod, ond nid yw

⁷⁶ Glanmor Williams, ‘Sir Gruffydd Fychan (? –1447)’, *Montgomeryshire Collections*, 86 (1998), 17–28 (24–5).

⁷⁷ *GPC*, d.g. *tylt*; Capwell, *Arms and Armour*, tt. 78–81.

⁷⁸ LIGC 3054iiD, ff. 428^v–9^r <<http://hdl.handle.net/10107/4393586>>; am destun golygedig, gw. ‘Disgrifiad Elis Gruffudd o’r Cynadleddau a fu rhwng Harri VIII a’r Ymherodr Siarl V a rhyngddo a Ffrances I, Brenin Ffrainc, yn 1520’, *B*, xviii (1958–60), 311–37 (328–9).

⁷⁹ *GSCeri*, 38.49–56, a t. 203. Deellir elfen gyntaf *wythwayw* yn [*g*]wyth (‘llid’, ‘brwydr’, ‘ffyrnig’); gw. *GPC*, d.g. *gwyth*¹; *G*, tt. 753–4.

arwyddocâd y *banc* (yn y cwpled olaf) mor amlwg. Ai clawdd a amgylchynai faes ymwan a olygir, a'r bardd yn disgrifio gwas Ieuan yn aros ar y *banc* hwn i roi iddo waywffon newydd wrth iddo dorri ei arf wrth ymwan?⁸⁰ Os felly, gall mai'r gynulleidfa yw'r *dyrfa*, a'r *heol* yn dynodi maes yr ymwan. Ni fyddai'r disgrifiad o'r noddwr yn ymladd *saith awr â chledd*, gan drechu dynion nes eu bod yn *sarn* oddi tano, yn anghydnaws ychwaith â chyd-destun y twrnamaint.⁸¹

Ceir cyfeiriad arall a all ymwneud â'r twrnamaint ym marwnad Lewys Morgannwg i Syr Siôn Rhaglan, y Carn Llwyd (m. 1531/2):

Ar filioedd yn rhyfelu
Ac ar farch gorau a fu.
Arfau sydd ar faes heddiw;
Ni 'mweddau' byth am ddyn byw,
Ac am orchest, gwayw marchawg,
Nid â, 'n rest, undyn yrhawg.⁸²

Canmolir Syr Siôn fel milwr ac fel marchog, a gall fod cyfeiriad yn y llinellau cyntaf at ei wasanaeth milwrol yn Ffrainc (fe'i hurddwyd yn farchog yn Nhwrnai yn 1513).⁸³ Ond wrth honni yn y cwpled olaf na roddai neb waywffon mewn rhest ar ôl marwolaeth Syr Siôn, gall fod awgrym fod ymwan yn ddfyrrwch weithiau yn hytrach nag yn fater o raid, a bod Syr Siôn wedi ymwan mewn twrnameintiau yn ogystal ag ar faes y gad.

Mae'n weddol sicr mai twrnamaint a olygir yn llinellau olaf cerdd foliant Meurig Dafydd i'r ysgolhaig a'r gwleidydd Syr Edwart Stradling (1529–1609), lle ceir darlun ohono yng nghwmni'r frenhines Elisabeth mewn gwledd ac yn *gwarau* (ffurf ar *gwarae* 'chwarae') â'i *wayw'n Rest*:

⁸⁰ Cyfeirir at glawdd a ffos, neu ffens, o amgylch maes ymwan yn H. C. Howard Earl of Suffolk and Berkshire, H. Peek and F. G. Aflalo, *The Encyclopaedia of Sport and Games*, volume 3 (London, 1911), t. 262.

⁸¹ *GSCeri*, 38.61–2.

⁸² *GLMorg*, 24.31–6.

⁸³ *GLMorg*, tt. 277–8.

llawn deon geraint yn llyndain gaerog,
yn nessa i Elsbedd yn jeyrll Rhinweddog,
ar wleddav ydynt arlwyddi oydog,
ar orav dewrfayrch, wyr aüraid arfog;
athithav'n gwarav gwyarog / wayw'n Rest,
yn jor am orchest, yn orav marchog.⁸⁴

Fodd bynnag, mae'n rhaid amau pa mor ffeithiol gywir yw'r darlun hwn o'r noddwr, a oedd yng nghanol ei bumdegau pan gyfansoddwyd y gerdd yn ôl pob tebyg (1583 yw'r dyddiad a nodir ar ôl y llinellau hyn). Yn yr un modd, mae'n amheus a ellir cymryd o ddifrif y darlun a geir mewn cerdd (i ofyn cleddyf) gan Dafydd Benwyn (bardd arall o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg) o noddwr yn teithio *a gwaew'n y rrest* wrth wasanaethu'r *Mathiaid*, sef teulu Mathew.⁸⁵

Gellid cymharu hefyd gerdd gan Siôn Ceri lle darlunnir Rhisiart ap Rhys (a '[e]isteddai ar y fainc yng Ngheredigion yn 1543'⁸⁶) fel ymwanwr dawanus, gan ei gysylltu â gwaywffon ei dad:

Rhisiart, wayw Rhys, o'r Tywyn,
Rhwygwyd y ffair rhag dy ffyn.
Gŵr yn rhoi gwewyr yn rhest,
Gwŷr yn ôl a gornelest.⁸⁷

Yn nes ymlaen yn y gerdd anogir Rhisiart i ddefnyddio ei waywffon i weithredu yn y byd go-iawn: *Bwrw, ustus Aberystwyth, / Beilch i'r llawr, a bylcha'r llwyth*.⁸⁸ Serch hynny, gall mai ymwneud â statws marchog yn bennaf y mae'r cyfeiriadau at

⁸⁴ T. Oswald Phillips, 'Bywyd a Gwaith Meurig Dafydd (Llanisien) a Llywelyn Siôn (Langewydd)' (M.A. Cymru [Caerdydd], 1937), XV.79–84; E. D. Jones (1953), 'STRADLING (TEULU), Sir Forgannwg', *Y Bywgraffiadur Cymreig* <<https://bywgraffiadur.cymru/article/c-STRA-MOR-1275>> (cyrchwyd 13 Rhagfyr 2019).

⁸⁵ Dafydd Huw Evans, 'The Life and Work of Dafydd Benwyn' (D.Phil. Oxford, 1981), XCVI.13–16 *Y swydd hwn, gwnn, ymlaen gwyr, / rodio Llanndaf a Radyr, / a gwaew'n y rrest, ag'n y rraid, / am waith yw y Mathiaid*.

⁸⁶ *GSCeri*, cerdd 41, a t. 207.

⁸⁷ *GSCeri*, 41.37–40; am arwyddocâd [g]wayw Rhys, gw. uchod, troednodyn 50.

⁸⁸ *GSCeri*, 41.43–4; cf. hefyd 53–4 *Tor wayw bonfras trwy Benfro, / Tyr drwy feilch, taradr yw fo*.

ymwan yn y gerdd hon, sy'n cloi gyda'r cwpled *Aerwy rhuddaur y rhoddych*, / *Aros art aur*, *Risiart wych* ac yn cymharu'r noddwr yn y cwpled cyntaf â *Saint Iorys â'i wayw'n taraw* (sef Sain Siôr, yr oedd darlun ohono ar fathodyn Urdd y Gardas).⁸⁹ Yn yr un modd, cyfeiria Siôn Ceri at gyfnewid coler arian (*aerwy gwyn*) am goler aur ar ddechrau cerdd i Wmffre Cinast, gan fynd ymlaen i'w annog i ymgyrchu ym Mhowys gyda'i waywffon: *Meddylia'r modd a welest*, / *Uniona'r ynn yn y rhest*. / *Mygr wyt ti yn magu'r tân*, / *Moes waith ym Mhowys weithian*.⁹⁰ Ac mewn cerdd o fawl gan Ddafydd Benwyn i Syr Edward Mansel (m. 1585), dylid ystyried y cyfeiriad ato'n cael *curo yn rhwydd* â'i wayw a'i rest yng ngoleuni'r cyfeiriadau yn yr un gerdd at *Sain Sior* a marchogion enwog eraill megis *Syr Galath*, a grybwyllir yng nghyswllt ei wasanaeth i'r *vrenhines Elsbed*.⁹¹

Mewn achosion eraill hefyd ym marddoniaeth yr unfed ganrif ar bymtheg ceir yr argraff nad yw'r rhest gwaywffon yn fwy na symbol cyfleus o filwriaeth neu statws marchog. Gellid ystyried yn arbennig farwnad gan Siôn ap Hywel lle neilltuir pedair llinell i ganmol un o feibion y gwrthrych, a'r cyfeiriad at ei arfau a'i *wrolaeth* yn y cwpled cyntaf yn cael ei wrthgyferbynnu â nodweddion mwy addfwyn yn yr ail gwpled: *A'i wayw yn rest*, *yno'r aeth* / *Ar Wiliam ei wrolaeth*; / *Irber ydyw o'r brodyr*, / *Un nid gwell*, *enaid y gwŷr*.⁹² Yn yr un modd, wrth ganmol hynafiaid pedwar brawd defnyddiodd Hywel Rheinallt yr ymadrodd cryno *coed euraidd rest* i awgrymu eu bod yn filwyr ac yn farchogion.⁹³ Ceir sawl enghraifft arall o gysylltu rhest gwaywffon â hynafiaid: crybwyllir *gwayw tanrest* mewn perthynas â thad a thaid y noddwr mewn cerdd gan Lewys Morgannwg,⁹⁴ ceir cyfeiriad cryno at

⁸⁹ Mae [g]art yn ffurf ar *gartr*; gw. y drafodaeth uchod am [g]ae aur Syr Rhys ap Tomas ac offer euraid eraill a gysylltid â statws marchog.

⁹⁰ *GSCeri*, 25.1–2, 35–8.

⁹¹ Evans, 'Life and Work of Dafydd Benwyn', XV.15–16 *kÿro yn rhwydd*, *kair a'i waiv a'i rhest*, / *kÿro kannkaer*, *kawr kannkost*; hefyd llau. 35–48.

⁹² *GSH*, 10.71–4.

⁹³ E. Wendy O. Davies, 'Testun beirniadol o waith Hywel Rheinallt ynghyd â rhagymadrodd, nodiadau a geirfa' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1967), 12.53–4 *Cadraidd wraidd coed euraidd rest*, / *Ceinciau o raddau concwest*.

⁹⁴ *GLMorg*, 5.19–20 *Gwaed Henri â'r gwayw tanrest*, / *Galwem fraich Gwilym a'i frest* (i Siors Mathau, Radur).

faichwayw'n rhest gan Forgan Elfael wrth gymharu Siôn ap Watgyn o Lynwene â'i daid Llywelyn Fychan;⁹⁵ a defnyddir yr ymadrodd *coed yn rhest* i awgrymu sgiliau ymwan hynafiaid y noddwr mewn cywydd arall gan Siôn Ceri.⁹⁶ Efallai fod rhai beirdd a noddwyr yn dechrau gweld ymwan fel dull brwydro a berthynai i'r gorffennol gan mwyaf, fel yr âi'r unfed ganrif ar bymtheg yn ei blaen.

Diau nad oedd swyddogaeth symbolaidd y rhest a'r waywffon yn gyfyngedig i'r farddoniaeth ddiweddarach, ond mae'n anodd tynnu ffin rhwng cyfeiriadau sy'n hollol ystrydebol (yn canmol y rhinwedd a ddisgwylid gan yr uchelwr delfrydol) a chyfeiriadau fformiwlaig mewn cerddi i wŷr y gwyddys eu bod yn rhyfelwyr, megis Owain Glyndŵr a Rheinallt ap Gruffudd. Gall mai mynegi dyhead i weld Owain Glyndŵr yn cael ei urddo'n farchog sydd y tu ôl i'r disgrifiadau afieithus ohono'n ymwan, er enghraifft.⁹⁷ Ac yn y gerdd gan Ddeio ab Ieuan Du sy'n disgrifio Rhydderch ap Rhys yn cael ei gyfarch gan Edward IV a'i *wayw'n rhest*, cynrychiola'r offer hyn allu a pharodrwydd Rhydderch i ymladd dros ei frenin.⁹⁸ Yn yr un modd, efallai fod Lewys Glyn Cothi yn meddwl am ymwan fel camp uchelwrol ystrydebol yn bennaf wrth gyfarch Wiliam ap Tomas Fychan fel *Y gŵr hir â'r gwayw o'r rhest*, a'r un gerdd yn crybwyll campau eraill megis saethu, neidio, nofio, rhedeg, marchogaeth a hela.⁹⁹

Roedd y beirdd yn feistri erioed ar ddefnyddio arfau i greu darlun o noddwr fel milwr dewr a medrus, ac wrth i ddelweddaueth sifalrïaidd ddod yn gynyddol bwysig o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ymlaen, gan adlewyrchu dyheadau'r noddwyr am statws marchog, pa gyfuniad a oedd yn well na gwaywffon a rhest i awgrymu bod noddwr yn ymwanwr, yn benodol? Ni wnâi'r gair *gwayw* y tro ar ei ben ei hun am ei fod yn gallu cyfeirio at amrywiol fathau o waywffyn; gallai ddynodi gwaywffon dioddefaint yr Iesu, er

⁹⁵ Llwyd, 'Noddwyr y Beirdd yn Siroedd Brycheiniog a Maesyfed', t. 522, *Llywelyn derwyn dewrael, / Faichwayw'n rhest Fychan wr hael*.

⁹⁶ *GSCeri*, 3.13–14 *Cadau un rhyw, coed yn rhest, / Ceirw â hirgryn Caer Hergest* (i Ieuan Llwyd ap Dafydd, Bachaethlon).

⁹⁷ Williams, 'More than "skimble-skamble stuff"', tt. 23–4; cf. *GGLI*, t. 259; Chapman, *Welsh Soldiers*, tt. 208–9.

⁹⁸ *GDID*, 2.57–60.

⁹⁹ *GLGC*, cerdd 50.

enghraifft, neu arf tafl megis y rhai a wasgerid gan arwyr ‘Y Gododdin’.¹⁰⁰ Nid yw’n glir, yn wir, a oes unrhyw derm Cymraeg a ddyndodai waywffon ymwan yn gyson.¹⁰¹ Roedd y pwynt hwn yn bwysig i’r beirdd a ddymunai ddarlunio eu noddwyr fel marchogion sifalrïaidd am fod sawl math o waywffon yn cael ei ddefnyddio yn yr Oesoedd Canol diweddar a’r cyfnod Tuduraidd; roedd picellau hirion ymhlith arfau’r troedfilwyr, a defnyddiai rhai marchogfilwyr waywffyn ysgafn y gellid gwanu â nhw fel arfau llaw neu eu taflu, megis y *lownsgae* (Saesneg ‘lancegay’) y cyfeiriodd Guto’r Glyn ato.¹⁰² I greu darlun diamwys o ymwan, felly—sef y dull o frwydro a gysylltid fwyaf â statws marchog—roedd rhaid i feirdd gynnwys elfennau eraill yn y darlun yn ychwanegol at y waywffon. Gellid crybwyll *ymwan*, torri gwaywffyn neu *fwrw* gelynyon, neu gymharu noddwr ag ymwanwr enwog megis Ffwg, Peredur neu Rolant, ond diau fod cyfuniadau megis *gwayw’n r(h)est* yn ychwanegiad hwylus iawn at yr ‘arfogaeth’ eirfaol hon.¹⁰³

* * *

Cywydd gofyn Gutun Owain sy’n rhoi’r darlun manylaf o’r rhest gwaywffon, a cheir yr argraff fod y bardd yn gyfarwydd â gwrthrych ei gerdd ac yn deall sut y’i defnyddid. Fel y nodwyd, erys peth ansicrwydd o ran natur yr arfwisg a oedd ganddo mewn golwg, a chwestiwn arall i’w ystyried yw gwir natur y cais a diben y gerdd. Nid y rhest ond y waywffon sy’n codi’r cwestiwn. Nid oedd gwaywffon yn arf gwerthfawr megis cleddyf, y gallai dyn ei drysori drwy gydol ei yrfa filwrol a’i drosglwyddo i’w etifedd. Torrai gwaywffyn yn aml; yn wir, disgwylid iddynt dorri wrth ymwan, fel y tystia cyfeiriadau niferus yn y farddoniaeth ac mewn llenyddiaeth ganoloesol yn gyffredinol. Pa mor ddefnyddiol fyddai un waywffon yn unig, felly? Efallai fod y *gwayw* yn y gerdd yn

¹⁰⁰ *GIBH*, 12.23–4, *Drwy’i ais a thrwy’i bais y bu / Un dall â gwayw’n Ei dyllu*; CA (XXVI A) llau. 300–3 *Bu gwir mal y meud e gatlew. / ny deliis meirch neb marchlew / heessit waywawr y glyw. / y ar llemenic llwybyr dew.*

¹⁰¹ Day, ‘Arfau’, 211–20, 250–6; Day, ‘*Gwalch Cywyddau*’, t. 248.

¹⁰² *GG.net*, 78.54; Day, ‘*Gwalch Cywyddau*’, tt. 248–9; Thom Richardson, *The Armour and Arms of Henry VIII* (Leeds, 2002 (arg. 2015)), tt. 46–7.

¹⁰³ Ar y ferf *ymwan*, gw. troednodyn 2 uchod.

cynrychioli nifer mwy sylweddol o waywffyn, neu ei fod er mwyn sioe yn bennaf a'r rhest gwaywffon yn brif wrthrych y cais. Yn sicr, y rhest sy'n cael y gyfran fwyaf o sylw'r bardd yn y darn dyfalu, a lle crybwyllir y waywffon, y cyd-destun fel arfer yw disgrifio gweithrediad ac effeithiolrwydd y rhest.

Mae undod strwythurol arbennig i'r cywydd hwn, fel y nodwyd uchod, am fod natur y cais yn perthyn mor agos i'r ddelwedd o'r noddwr fel ymwanwr (darlun ohono a geir gan sawl bardd arall). Nid oes syndod mai enw a chartref y noddwr, yn hytrach na'r gwrthrychau a erchir, a nodwyd gan William Wynn wrth iddo ychwanegu teitl wrth ymyl y gerdd yn y copi hynaf yn llawysgrif BL Add 14967,¹⁰⁴ ond tybed a oedd hyn yn adlewyrchiad teg o ddiben y gerdd? Roedd gofyn am offer ymwan gan ymwanwr o fri yn fath o ganmoliaeth ynddo'i hun, am ei fod yn cydnabod mai ganddo ef y ceid yr offer gorau. Dylid cofio hefyd am y berthynas waed rhwng yr eirchiad a'r noddwr, a'r cyfeiriad at ddod *yn rhaid*. Gall mai prif ddiben y cywydd hwn, felly, oedd canmol Rheinallt ap Gruffudd a chadarnhau'r cyswllt cymdeithasol rhyngddo a'i *ewythr*, Hywel, a bod y cais am yr offer ymwan yn llai pwysig mewn gwirionedd.¹⁰⁵

Nid oes rheswm dros amau, fodd bynnag, nad oedd y rhest gwaywffon yn ategolyn cyfarwydd i Gutun Owain ac i nifer sylweddol o feirdd eraill yn y cyfnod rhwng y 1380au a'r 1580au. Efallai fod y mynych gyfeiriadau at y rhest yng nghyswllt gwaywffyn trwm, ergydion nerthol, torri gwaywffyn a bwrw gelynion yn adlewyrchu ymwybyddiaeth y beirdd â swyddogaeth y rhest, er na ddylid gorbwysleisio hyn am fod cyfeiriadau o'r fath yn ddigon cyffredin mewn disgrifiadau o ymwan yn gyffredinol. Cysylltir y rhest â rhyfel gan amlaf, a dylid tynnu sylw arbennig at y gerdd gan Ddafydd Nanmor sy'n ei grybwyll yng nghyd-destun ymosodiad yr Iorciaid ar ogledd Cymru yn 1468. Perthyn i ddechrau a diwedd y cyfnod dan sylw mae'r cyfeiriadau yng

¹⁰⁴ Gwrthyferbynnner teitlau'r cerddi a geir o'i blaen ac ar ei hôl, sef *i ofyn March* (f. 37^r), *C. i Howel ap Rhys o Rug i ofyn cŵn dros ei nai Ddd ap Ieuan* (37^v), *i ofyn Bwccled i Sion Pulstwn dros Sion ap Elis Eytyn o Wat ystay* (38^r), *C. i ofyn Cledd Mathew Pulstwn* (38^v).

¹⁰⁵ Trafodir yn Huws, *Canu Gofyn a Diolch*, t. 97, achosion eraill lle'r ymddengys mai moliant yw *raison d'être* cerddi gofyn. Am fotiff 'dod yn rhaid' a phwysigrwydd cymdeithasol y canu, gw. *ibid.*, tt. 132–43, 212–13.

nghyd-destun y twrnamaint a geir gan Iolo Goch (c.1384/5) a Meurig Dafydd (1583). Mae'n debygol, fodd bynnag, fod pwysigrwydd canmol milwriaeth ar faes y gad yn y traddodiad mawl wedi peri gogwydd (gor-filwrol) cyffredinol yn y darlun a geir o'r rhest gwaywffon.

Diau fod rhai beirdd yn defnyddio ymadroddion am waywffon a rhest yn ystrydebol, yn enwedig yn yr unfed ganrif ar bymtheg, ond mae swyddogaeth symbolaidd yr offer hyn, yn rhan o'r ddelweddaeth sifalriaidd ehangach a ddaeth yn fwyfwy cyffredin drwy gydol y ddwy ganrif dan sylw, yn ddi-ddorol ynddo'i hun.¹⁰⁶ Nid yw'r dystiolaeth am y rhest a drafodwyd uchod ond yn ddiferyn yn y môr, wrth gwrs, o'i chymharu â chyfeiriadau di-rif y beirdd at arfau ac arfwisgoedd yn gyffredinol, ond drwy ei hystyried ceir cipolwg o leiaf ar bwysigrwydd offer ymwan yn rhan o ddiwylliant materol milwrol yr uchelwyr, ac fel adlewyrchiad o'u dyheadau cymdeithasol.¹⁰⁷

JENNY DAY
Aberystwyth

¹⁰⁶ Cymharer trafodaeth ddiweddar Barry Lewis, 'Arthurian references in medieval Welsh poetry c.1100–c.1540', yn *Arthur in the Celtic Languages*, ed. Ceridwen Lloyd-Morgan and Erich Poppe (Cardiff, 2019), tt. 187–202.

¹⁰⁷ Cyflwynwyd fersiwn byr o'r papur hwn yn Yr XVleg Gyngres Astudiaethau Celtaidd Ryngwladol, 22–26 Gorffennaf 2019, Prifysgol Bangor. Diolchaf i'r gynulleidfa am eu sylwadau adeiladol. Rwyf yn ddiolchgar iawn hefyd i Andrew Hawke am ei gyngor am darddiadau, i Alaw Mai Edwards am drafod y *tasel* â fi, ac i Dafydd Johnston ac Ann Parry Owen am eu cyngor am ddehongliad nifer o'r cyfeiriadau a'u sylwadau ar yr erthygl hon, a diolchaf yn arbennig i Ann am ei hyfforddiant a'i chyngor mewn perthynas â golygu cerdd Gutun Owain.

Atodiad

*Gofyn rhest a gwaywffon gan Reinallt ap Gruffudd
ap Bleddyn o'r Tŵr, yr Wyddgrug, ar ran ei 'ewythr',
Hywel (?ab Ieuan ap Gruffudd)*

- Y carw glew fal Curig lân
A dry durwayw drwy darian,
Dewr, Reinallt, da yw'r annwyd,
4 Dihenydd gwayw onwydd wyd.
Os cai yn y wisg haearn,
O'th law ni ddaw ond ei ddarn;
Os gwydn, gwnai megis gwden,
8 Os brau, gwnai yn us ei bren.
Dy alw a wnair, lle delych,
Sarff y gad neu Syr Ffwg wych,
Eryr rhyfel a ffelaig,
12 Ederyn grifft, dur 'n y graig.
Blaidd o Ruffudd a Bleddyn,
Blaen cad, fal y tad wyt ynn.
Rheinallt ddewr, ynnill dy ddawn,
16 Dwg enw fal y dug Einiawn.
Aeth had Hywel a Thudur,
Aeth gras Duw i'th guras dur.
Eirchiad â chennad wych wyf,
20 A'th wawdydd, benrhaith, ydwyf.
Dwyn onn, ŵr diwan annwyd,
Mewn arést, ymwan yr wyd.
Gŵr arall a gâr arwain
24 O rhoid rhyw dlysau â'r rhain.
Hywel yw, hael o Ieuan,
Hil Gruffudd, a rydd ei ran;
Dy ewythr yw, daw i'th raid,
28 O freiniau'r hen farwniaid.
Rhyw iddo, fy rhieiddwawr,
Hoffi march a saffwayw mawr.
Arést dur i aros dyn
32 A gwayw Ifor yw'r gofyn.

- Iäen ymladd wen amlwg,
 Ewin o ddur, onn a ddwg;
 Mor braff y cymerai bren
 36 Mawr â gwayw maer y Gïen.
 Arést dwbled Beredur,
 Ysgwydd oll a wisg o ddur;
 Chwarter o arfau Fferyllt,
 40 Abl â gwayw ar ebol gwyllt.
 Asgell rhyfel o Felan,
 Arést dur o'r eirias dân;
 Draig wen y daroganau
 44 Â'r ewin cam ar wayw'n cau.
 Dyro goed ar lun draig wyllt,
 A thasel o waith Esyllt;
 Dyro wayw rhyfel Melwas,
 48 A dyro glo o'r dur glas.
 Cymer, ysgwier, wisg wen,
 Glos hëyrn fal glas iäen;
 Cae dy bais haearn arnad,
 52 Cadw'r Tŵr fal y'i cadwai'r tad.
 Tarian wyd yn rhaid Harri,
 Teiroes y Tŵr trosot ti.

Dull y Golygu

Dilynyd egwyddorion Cyfres Beirdd yr Uchelwyr gan gyflwyno'r testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi.

Golygwyd y gerdd o'r blaen yn *GO*, 105–9 (cerdd XVI).

Ffynonellau

A—BL Add 14967, 37^v–38^r B—BL Add 31087, 56^r–58^v C—LIGC 19906B, 176^r–177^r D—Pen 221, 40 (*cwpled cyntaf*)

Seiliwyd y golygiad ar y testun hynaf, BL Add 14967, a ysgrifennwyd gan law anhysbys tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg (Daniel Huws, *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes c.800–c.1800* (i'w gyhoeddi 2020)). Codwyd y gerdd i'r llawysgrifau eraill un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r

testun hwn, sydd o bosibl yn tarddu o gopi yn llaw'r bardd ei hun. Ceir yn nhestun BL Add 14967 gywiriadau gan y brif law ynghyd â chywiriadau a diweddariadau gan law gyfoes neu o'r ail ganrif ar bymtheg. Dangosir y rhain rhwng bracedi cyrliog wrth nodi darlleniadau'r llawysgrif isod.

Darlleniadau'r llawysgrif

24 a^{r} rain 26 a rrydd i ðrann 27 rraid 53 raid.

Teitl

{{i Reinallt ap Gr. ap Bleddyn o'r Twr yn yr Wyddgrug}} [*llaw William Wynn ((1709–60)) (Huws, Repertory)*]

Priodoliad

Guttyn owain Ai kant

Nodiadau

- 1 **Curig** Sant a gysylltid â gweddi amddiffynnol a elwid yn *llurig* neu'n *lorica*; gw. *GPC*, d.g. *llurig* (b); Brynley F. Roberts, 'Rhai swynion Cymraeg', *B*, xxi (1964–6), 197–212 (202–3); hefyd S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 volumes, London, 1907–13), ii, tt. 192–200; *WCD*, t. 155.
- 3 **Rheinallt** Rheinallt ap Gruffudd ap Bleddyn (ab Einion Fychan ab Einion) o'r Tŵr (cf. llau. 52n, 54), ger yr Wyddgrug. Ei fam oedd Gwerful ferch Hywel ap Tudur (*WG1*, 'Llywelyn Eurdorchog' 6, 'Rhird Flaidd' 7; *WG2*, 'Llywelyn Eurdorchog' 6 (A, B)). Am ei yrfa, gw. y prif destun uchod.
- 5 **cai** Ffurf ail unigol presennol mynegol *cael* (yn cyfateb i *cei* heddiw). Cf. *gwnai* (yn cyfateb i *gwnei* heddiw) yn llau. 7–8.
- 10 **Syr Ffwg** Fulk Fitzwarine, uchelwr a gysylltir â'r Dre-wen (Whittington). Arweiniodd wrthryfel yn erbyn y Brenin John yn 1200–3, a daeth yn arwr y rhamant *Fouke le Fitzwarin* a gyfansoddwyd yn y drydedd ganrif ar ddeg, yn ôl pob tebyg (*Oxford Dictionary of National Biography*, ed.

H. C. G. Matthew and B. Harrison (Oxford, 2004), tt. 953–4). Fe'i crybwyllir yn aml gan y beirdd yng nghyd-destun ymwan; gw., e.e., *GO*, X.27–8 *I rym, fal march Ffwk yr iav, / A dyrr onn yn draianav* (i ofyn ceffyl); cf. *GG.net*, 51.46n; *GGLI*, 11.57n.

- 12 **Ederyn grifft, dur 'n y graig** Ysgrifennwyd yr arddodiad yn yn llawn yn y llawysgrif ond mae'r ll. yn rhy hir oni chywesgir.
- 13 **Gruffudd a Bleddyn** Tad a thaid y darpar roddwr, Rheinallt ap Gruffudd; gw. ll. 3n.
- 16 **Einiawn** Hendaidd Rheinallt, yn ôl pob tebyg, ond gall fod y bardd yn meddwl am ei dad yntau hefyd; gw. ll. 3n.
- 17 **Hywel a Thudur** Taid a hendaidd Rheinallt ar ochr ei fam; gw. ll. 3n.
- 25–6 **Hywel ... o Ieuan, / Hil Gruffudd** Awgryma'r cwpled hwn mai Hywel ab Ieuan oedd enw'r eirchiad a bod rhyw Ruffudd yn daid iddo yn ôl pob tebyg, a nodir yn ll. 27 ei fod yn *ewythr* i Reinallt. Ni lwyddais i ddod o hyd i ymgeisydd addas yn yr achau, hyd yn oed o ddeall *ewythr* yn gyfeiriad mwy cyffredinol at berthynas wrywaidd (nodir yn Huws, *Canu Gofyn a Diolch*, t. 141, fod termau megis *ewythr* a *nai* yn cael eu harfer yn llac iawn weithiau).
- 32 **Ifor** Ifor ap Llywelyn neu Ifor Hael o Fasaleg, Sir Fynwy, noddwr i Ddafydd ap Gwilym a phatrwm o haelioni yn y traddodiad barddol diweddarach (I. Williams (1953), 'IFOR HAEL', *Y Bywgraffiadur Cymreig* < <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-IFOR-HAE-1313>> (cyrchwyd 6 Rhagfyr 2019).
- 36 **y Gïen** Guyenne, ardal yn ne-orllewin Ffrainc. Roedd yn enwog am ei gwin (*GLGC*, 49.4, 178.36n) ac fel un o'r tiriogaethau y bu ymgiprys amdanynt yn y Rhyfel Can Mlynedd. Roedd ym meddiant coron Lloegr o 1360 tan 1451 a bu ymgyrch aflwyddiannus gan Edward IV i'w hadennill yn 1475. Cyfeiriodd Lewys Glyn Cothi at ymladd yn *Gien a Gasgwyn* mewn awdl foliant i Rys ap Dafydd Llwyd (m. 1469) (*GLGC*, 203.48), a gall fod cyfeiriad at ymgyrch 1475 mewn cywydd gan 'Y Nant' i Watgyn ap Syr Rhosier Fychan o deulu Fychaniaid Tretŵr ym

Mrycheiniog (*Gwaith y Nant*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2013) [=GyN], 11.89, a t. 112). Cf. hefyd *GTA*, VII.39–40 *Gwnaud ar wal y Gien drwch*, / *Gŵr â chanfflam gwreichionfflwch* (i Syr Rhys ap Tomas).

- 37 **Peredur** Peredur fab Efrog neu Beredur Paladr Hir, arwr traddodiadol o'r Hen Ogledd a uniaethid â Perceval y traddodiad Ffrengig ac a ymddengys mewn sawl rhamant Arthuraidd. Yn *Historia Peredur vab Efwrawc* (gol. G. W. Goetinck (Caerdydd, 1976)) ceir hanes ei ddatblygiad yn farchog ac yn ymwanwr medrus, ac yn *Y Seint Greal* (ed. Robert Williams (London, 1876), 187.19–26) 'esbonnir' elfennau ei enw fel *pâr* 'gwaywffon' a *dur*; gw. *TYP*⁴, tt. 477–80.
- 39 **Fferyllt** Y bardd Lladin Vergilius, a ystyrir yn ddewin ac yn grefftwr celfydd; gw. *GPC*, d.g. *fferyllt*; hefyd *GyN*, 5.1–3 *Ble y ceir toryn Esyllt / ... / O gelfyddyd Fferyllt* (i ofyn mantell) ac *ibid.* n.
- 41 **Melan** Roedd dinas Milano yn yr Eidal yn ganolfan enwog ar gyfer cynhyrchu arfau ac arfwisgoedd. Mor gryf oedd ei chysylltiad ag offer milwrol graenus yn y traddodiad Cymreig nes i'r enw lle ddatblygu'n enw cyffredin; gw. *GPC*, d.g. *melan*¹ 'dur (Milano)'.
43 **draig wen y daroganau** Cysylltid draig wen â'r Saeson ym 'Mhroffwydoliaethau Myrddin' ym 'Mrut y Brenhinedd' Sieffre o Fynwy, ac yn y traddodiad barddol (H. Lewis gol., *Brut Dingestow* (Caerdydd, 1942), tt. 103–4; a gw, e.e., *GDGor*, 2.25n, 5.31; *GSDT*, cerdd 17 ('I'r Ddraig Goch')). Gall mai ei harwyddocâd yma yw ei bod yn greadur ffyrnig ac enwog, a'i lliw yn wynnaiid a disglair (tebyg i liw arfwisg gain), ond posibilrwydd arall yw bod y bardd yn cyfeirio at darddiad Seisnig; cf. *GSCeri*, 25.41 *Y ddraig wen a dd'roganwyd*, a'r ddraig yma'n 'cynrychioli tras estron y gwrthrych', Wmffre Cinast (*ibid.* n). Efallai mai yn Lloegr y daeth Rheinallt o hyd i'w offer, felly. (Ni fyddai hyn yn cau allan y posibilrwydd mai ym Milano y'u gwnaethpwyd; fodd bynnag, gall mai confensiynol yw'r cyfeiriad at *Felan* yn ll. 41.)

- 46 **tasel** Benthycair o'r S.C. *tassel* yn ôl *GPC*, d.g. *tasel*¹. Fe'i deellir yn yr ystyr 'clesbyn' neu 'gwäeg'; gw. *Middle English Dictionary*, s.v. (a) 'A fastener or clasp for a mantle'; *OED Online*, s.v. *tassel*, n.¹, 1. 'A clasp or fibula by which the two sides of a cloak or the like are held together.' Wrth gyfeirio'n ffigurol at y rhest, gall awgrymu nid yn unig ei ffurf estynedig (fel pîn brôtsh) ond hefyd ei leoliad ar yr ysgwydd, ei swyddogaeth wrth ddal y waywffon, a'i wneuthuriad cain o bosibl (cf. yr ymadrodd *cae Epyllt* a drafodir yn y nodyn nesaf). (Gwrthgyferbynnwr *GPC*, d.g. *tasel*¹ 'Cwlwm o edefynnau, &c., rhydd a osodir fel addurn ar ddillad'.)
- Epyllt** Roedd sawl Epyllt yn y traddodiad Cymreig, ond mae'n debygol mai cariad Trystan a olygir yma; cf. *GO*, VII.3–4 *Rrois arnad ruw gariad gwyllt / A roes Trystan ar Epyllt*; a gw. *TYP*⁴, tt. 331–4, 350–2; Jenny Rowland, 'Trystan and Epyllt' yn *Arthur in the Celtic Languages*, ed. Lloyd-Morgan and Poppe, tt. 51–63. Roedd Trystan yn enwog fel milwr yn ogystal, ac mae'n ddiddorol fod cyfeiriadau at frigawn fel *Trystan iaen* a *dillad Trystan* yng nghywyddau gofyn Robin Ddu a Guto'r Glyn (Huws gol., *Detholiad o Gywyddau*, 8.45; *GG.net*, 98.50), ond mwy perthnasol yw'r cyfeiriadau sy'n cysylltu Epyllt ei hun ag offer cain; gw. *GyN*, 5.1 *Ble y ceir toryn Epyllt* (i ofyn mantell), ac yn arbennig *GG.net*, 126.35–6 *Saer awdl pob mesur ydoedd, / Swllt ynn a chae Epyllt oedd* (marwnad Guto'r Glyn gan Gutun Owain), ac *ibid.* n.; *GPC*, d.g. *cae ... cae Epyllt* 'treasure, precious or valuable thing'.
- 47 **Melwas** Carwr neu herwgipiwr Gwenhwyfar (gwraig y brenin Arthur), y cyfeirir ato hefyd fel hudol ac fel rhyfelwr yn y traddodiad barddol; gw. *WCD*, tt. 469–70; Nerys Ann Jones, 'Arthurian references in early Welsh poetry' yn *Arthur in the Celtic Languages*, ed. Lloyd-Morgan and Poppe, tt. 15–34 (28–9); Barry Lewis, 'Arthurian references in medieval Welsh poetry', *ibid.*, tt. 187–202 (tt. 196–8).
- 52 **Y Tŵr** Cartref Rheinallt, ger yr Wyddgrug. Fe'i codwyd gan ei dad Gruffudd yn ôl *GLGC*, 214.37–8 *Gwnaeth Gruffydd fal mynydd maith / dŵr i Reinallt ar unwaith*.

Harri Y Brenin Harri VI (1421–1471), a ddiorseddwyd gan Edward IV ar ôl brwydr Towton, 29 Mawrth 1461. Yn yr un flwyddyn, cofnodwyd Rheinallt ap Gruffudd yn un o'r milwyr a ddaliai gastell Harlech dros Harri VI yn erbyn Edward IV, ac roedd yn parhau i gynnal y castell yn 1464 (Evans, *Wales and the Wars of the Roses*, t. 87; *GTP*, t. 111).